OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 692 (Cy. 116)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025

Gwnaed	*14 Mehefin 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*17 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*15 Rhagfyr 2025*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 No. 692 (W. 116)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Examination and Decision) (Procedure) (Wales) Regulations 2025

Made	*14 June 2025*
Laid before Senedd Cymru	*17 June 2025*
Coming into force	*15 December 2025*

£13.57

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 692 (Cy. 116)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025

2025 No. 692 (W. 116)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Examination and Decision) (Procedure) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i'r prosiectau seilwaith arwyddocaol a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2024 yn cynnwys y gofyniad am gydsyniad seilwaith. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud cais am gydsyniad seilwaith. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaeth ynghylch penodi awdurdod i archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith ("yr awdurdod archwilio") ac ynghylch agweddau penodol ar y broses archwilio. Mae Rhan 5 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025 yn gwneud darpariaeth sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth yn Neddf 2024 ynghylch gofynion cyn gwneud cais a gwneud cais am gydsyniad seilwaith.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r weithdrefn archwilio sy'n dilyn cais.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Infrastructure (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act") establishes a unified application and consenting process to enable making and consideration of applications for infrastructure consent. The process applies to the significant infrastructure projects that are specified in Part 1 of the 2024 Act. Broadly, they are energy, transport, waste and water projects.

Part 2 of the 2024 Act contains the requirement for infrastructure consent. Part 3 of the 2024 Act makes provision about applying for infrastructure consent. Part 4 of the 2024 Act contains provision about appointing an authority to examine applications for infrastructure consent ("the examining authority") and about particular aspects of the examination process. Part 5 of the 2024 Act contains provisions about deciding applications for infrastructure consent.

The Infrastructure Consent (Pre-Application and Application Procedure and Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2025 make provision additional to that in the 2024 Act about pre-application requirements and applying for infrastructure consent.

These Regulations deal with the examination procedure which follows an application.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag awdurdod archwilio, paratoi ar gyfer ceisiadau a'u harchwilio a phrosesau ar ôl archwilio.

Mae **Rhan 1** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth gyffredinol.

Mae **Rhan 2** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi awdurdod archwilio a'i weithrediad. Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch penodi person neu banel o bersonau fel awdurdod archwilio ac yn ymdrin â materion fel y dyddiad ar gyfer eu penodi, rhoi cyhoeddusrwydd i'r penodiad a dyrannu swyddogaethau a gwneud penderfyniadau gan banel.

Mae **Rhan 3** o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â pharatoi ar gyfer yr archwiliad a'i reoli. Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch y dyddiad ar gyfer gwneud dyfarniad ar y dewis o weithdrefn ar gyfer yr archwiliad, llunio amserlen ar gyfer yr archwiliad a hawl i wrandawiad llawr agored mewn rhai amgylchiadau. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i drefniadau ymarferol ar gyfer yr archwiliad.

Mae **Rhan 4** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal yr archwiliad. Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch cyflwyno sylwadau pellach, a chynnal gwrandawiad neu ymchwiliad lleol. Mae'r Rhan honno hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol rhithiol, darlledu gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol, a mynediad at recordiadau mewn amgylchiadau penodedig. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfarwyddydau diogelwch gwladol er mwyn cyfyngu ar fynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol, cyfarfodydd rheoli archwiliad ac amrywio cais.

Mae **Rhan 5** yn cynnwys darpariaethau ynghylch y weithdrefn ar ôl archwiliad, gan gynnwys gwneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch adroddiad gan unrhyw asesydd a benodir i gynorthwyo'r awdurdod archwilio ac ynghylch symud ymlaen i adroddiad neu benderfyniad ar sail sylwadau a wneir o fewn y terfyn amser cymwys, neu heb sylwadau. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys adroddiadau, y weithdrefn pan fydd tystiolaeth neu ffeithiau newydd yn dod i'r amlwg a chynigion i wneud gorchymyn sy'n sylweddol wahanol i'r un yn y cais. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch hysbysu pobl am benderfyniadau a rhesymau a'r weithdrefn ar ôl dileu penderfyniad.

In particular these Regulations make further provision in relation to an examining authority, preparation for and the examination of applications and post-examination processes.

Part 1 of these Regulations makes general provision.

Part 2 of these Regulations makes provision in relation to the appointment and functioning of an examining authority. It includes provision about appointing a person or a panel of persons as an examining authority and deals with matters such as the date for appointing them, publicising the appointment and the allocation of functions and decision-making by a panel.

Part 3 of these Regulations deals with preparation for and managing the examination. It includes provision about the date for making a determination as to the choice of procedure for the examination, preparation of a timetable for the examination and a right to an open-floor hearing in certain circumstances. It also includes provision for publicising practical arrangements for the examination.

Part 4 of these Regulations makes provision about the conduct of the examination. It includes provision about making further representations, and the conduct of a hearing or local inquiry. That Part also contains provision about virtual hearings and local inquiries, broadcasting hearings and local inquiries, and access to recordings in specified circumstances. It also makes provision about national security directions to restrict access to evidence at a local inquiry, examination management meetings and variation of an application.

Part 5 contains provisions about the procedure after examination, including making decisions. It includes provision about a report by any assessor appointed to assist the examining authority and proceeding to a report or decision on the basis of representations made within the applicable time limit, or without representations. It also makes provision relating to the contents of reports, the procedure where new evidence or facts emerge and proposals to make a materially different order to the one in the application. It makes provision about notifying people of decisions and reasons and the procedure following the quashing of a decision.

Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025 yn gwneud darpariaeth atodol sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn pan fo cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir. Mae'r ddarpariaeth atodol honno'n ymwneud â gofyniad i gynnal cyfarfod cyn dyfarnu neu amrywio'r weithdrefn ar gyfer archwilio, y dyddiad ar gyfer dyfarniad o'r weithdrefn, yr amserlen ar gyfer archwilio, pwy i'w wahodd i gyflwyno sylwadau pellach, personau y mai rhaid eu hysbysu am benderfyniad i wneud neu wrthod gorchymyn cydsyniad seilwaith a'r rhesymau dros hynny, ac ystyr "cyfnod ar gyfer sylwadau" a "parti a chanddo fuddiant".

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Infrastructure Consent (Compulsory Acquisition) (Wales) Regulations 2025 make supplementary provision which is relevant to these Regulations where an application for infrastructure consent includes a request to authorise compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land. That supplementary provision relates to a requirement for a meeting before determining or varying the procedure for examination, the date for determination of procedure, the timetable for examination, who to invite to make further representations, persons who must be notified of a decision to make or refuse an infrastructure consent order and the reasons for it, and the meanings of "representation period" and "interested party".

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 692 (Cy. 116)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025

Gwnaed	*14 Mehefin 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*17 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*15 Rhagfyr 2025*

CYNNWYS

RHAN 1

Cyffredinol

1. Enwi a dod i rym
2. Dehongli a rhoi hysbysiadau etc

RHAN 2

Yr awdurdod archwilio

3. Penodi awdurdod archwilio
4. Penodi panel yn awdurdod archwilio
5. Amnewid panel neu berson fel awdurdod archwilio
6. Hysbysiad o awdurdod archwilio
7. Dyrannu swyddogaethau gan banel
8. Gwneud penderfyniadau gan banel

RHAN 3

Paratoi ar gyfer archwiliad a'i reoli

9. Gwrandawiadau llawr agored

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 No. 692 (W. 116)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Examination and Decision) (Procedure) (Wales) Regulations 2025

Made	*14 June 2025*
Laid before Senedd Cymru	*17 June 2025*
Coming into force	*15 December 2025*

CONTENTS

PART 1

General

1. Title and coming into force
2. Interpretation and giving notices etc

PART 2

The examining authority

3. Appointing an examining authority
4. Appointing a panel as an examining authority
5. Replacing a panel or person as examining authority
6. Notification of examining authority
7. Allocation of functions by a panel
8. Decision-making by a panel

PART 3

Preparation for, and managing, examination

9. Open floor hearings

10. Dyfarniad o'r weithdrefn
11. Yr amserlen ar gyfer archwiliad
12. Hysbysiad o ddewis o weithdrefn a'r amserlen
13. Amseru a lleoliad gwrandawiad neu ymchwiliad lleol a chyfranogi ynddo
14. Cyhoeddusrwydd ar gyfer gwrandawiad neu ymchwiliad lleol
15. Datganiadau ysgrifenedig o dystiolaeth
16. Darparu gwefan
17. Cyngor i Weinidogion Cymru

RHAN 4

Archwiliad

18. Sylwadau ysgrifenedig cychwynnol
19. Ceisio sylwadau ysgrifenedig pellach
20. Y dull o gynnal gwrandawiad
21. Y dull o gynnal ymchwiliad lleol
22. Cyfarfodydd, gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol rhithiol
23. Darlledu gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol
24. Recordio gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol
25. Hysbysiad o benodiadau i gynorthwyo awdurdod archwilio
26. Cyfyngu ar fynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol
27. Cyfarfodydd rheoli archwiliad
28. Amrywio cais

RHAN 5

Y weithdrefn ar ôl sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad ac ymchwiliad lleol

29. Adroddiad yr asesydd
30. Symud ymlaen i adroddiad neu benderfyniad
31. Cais i'w benderfynu gan yr awdurdod archwilio
32. Cais i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru
33. Cyfarwyddyd i ailagor yr archwiliad
34. Cynnig i wneud gorchymyn sy'n sylweddol wahanol
35. Hysbysiad o benderfyniadau ar gais o ran Cymru
36. Hysbysiad o benderfyniadau ar gais mewn perthynas ag ardal forol Cymru
37. Hysbysiad o'r rhesymau dros benderfyniad ar gais o ran Cymru

10. Determination of procedure
11. Timetable for examination
12. Notification of choice of procedure and timetable
13. Timing and location of, and participation in, hearing or local inquiry
14. Publicity for hearing or local inquiry
15. Written statements of evidence
16. Provision of website
17. Advice to the Welsh Ministers

PART 4

Examination

18. Initial written representations
19. Seeking further written representations
20. Conduct of a hearing
21. Conduct of a local inquiry
22. Virtual meetings, hearings and local inquiries
23. Broadcasting hearings and local inquiries
24. Recording hearings and local inquiries
25. Notification of appointments to assist examining authority
26. Restricting access to evidence at a local inquiry
27. Examination management meetings
28. Variation of application

PART 5

Procedure after written representations, hearing and local inquiry

29. Assessor's report
30. Proceeding to a report or decision
31. Application to be decided by the examining authority
32. Application to be decided by the Welsh Ministers
33. Direction to re-open the examination
34. Proposal to make materially different order
35. Notice of decisions on an application in relation to Wales
36. Notice of decisions on an application in relation to the Welsh marine area
37. Notice of reasons for decision on an application in relation to Wales

38. Hysbysiad o'r rhesymau dros benderfyniad ar gais mewn perthynas ag ardal forol Cymru

39. Gweithdrefn ar ôl dileu penderfyniad

ATODLEN 1 Cyfyngu ar fynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol

ATODLEN 2 Hysbysiad o benderfyniad a'r rhesymau

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 32(4)(e), (5), 40(5) a (6)(a) i (c), 42(4) a (6), 43, 44(1), (2) a (4), 48(6), 60(2)(d), (4)(d) a (6), 62(3), 129(3)(a), (4)(a) a (b), 140(1) a (2)(**1**) ac 141(2) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

Dehongli a rhoi hysbysiadau etc

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "amserlen" ("*timetable*") yw amserlen mewn perthynas â'r cais a lunnir yn unol â rheoliad 11;

ystyr "ardal forol Cymru" ("*Welsh marine area*") yw'r môr sy'n gyfagos i Gymru hyd at derfyn atfor y môr tiriogaethol; ac mae'r cwestiwn ynghylch pa rannau o'r môr sy'n gyfagos i Gymru i'w benderfynu yn unol ag erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(**3**);

ystyr "awdurdod archwilio" ("*examining authority*") yw person neu banel o bersonau a benodir o dan adran 40 o Ddeddf 2024 mewn cysylltiad â chais penodol;

(**1**) Am ystyr "Gweinidog priodol" *gweler* adran 140(4) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3); *gweler* adran 140(3) fel arall.
(**2**) 2024 dsc. 3.
(**3**) O.S. 1999/672 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

38. Notice of reasons for decision on an application in relation to Welsh marine area

39. Procedure following quashing a decision

SCHEDULE 1 Restricting access to evidence at local inquiry

SCHEDULE 2 Notification of decision and reasons

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 32(4)(e), (5), 40(5) and (6)(a) to (c), 42(4) and (6), 43, 44(1), (2) and (4), 48(6), 60(2)(d), (4)(d) and (6), 62(3), 129(3)(a), (4)(a) and (b), 140(1) and (2)(**1**) and 141(2) of the Infrastructure (Wales) Act 2024(**2**), make the following Regulations.

PART 1

General

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Infrastructure Consent (Examination and Decision) (Procedure) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 15 December 2025.

Interpretation and giving notices etc

2.—(1) In these Regulations—

"the 2024 Act" ("*Deddf 2024*") means the Infrastructure (Wales) Act 2024;

"the 2025 Applications Regulations" ("*Rheoliadau Ceisiadau 2025*") means the Infrastructure Consent (Pre-Application and Application Procedure and Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2025(**3**);

"the 2025 Compulsory Acquisition Regulations" ("*Rheoliadau Caffael Gorfodol 2025*") means the Infrastructure Consent (Compulsory Acquisition) (Wales) Regulations 2025(**4**);

(**1**) For the meaning of "appropriate Minister" *see* section 140(4) of the Infrastructure (Wales) Act 2024 (asc. 3); *see* section 140(3) otherwise.
(**2**) 2024 asc. 3.
(**3**) S.I. 2025/690 (W. 114).
(**4**) S.I. 2025/691 (W. 115).

ystyr "awdurdod cynllunio" ("*planning authority*") yw'r awdurdod cynllunio lleol o fewn yr ystyr a roddir i "local planning authority" gan Ran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**)—

(a) pan fo cais ar gyfer datblygiad yng Nghymru, ar gyfer ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;

(b) ar gyfer yr ardal sydd agosaf at yr ardal y mae'r cais yn ymwneud â hi, yn achos cais ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru;

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan adran 32 o Ddeddf 2024 ac mae'n cynnwys unrhyw amrywiad y cytunir arno;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n gwneud cais am orchymyn cydsyniad seilwaith;

ystyr "cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent*") yw'r cydsyniad sy'n ofynnol gan adran 19 o Ddeddf 2024;

ystyr "cyfnod ar gyfer sylwadau" ("*representation period*") yw'r cyfnod sy'n dod i ben â'r dyddiad cau a bennir yn unol ag adran 34(4) o Ddeddf 2024 mewn cysylltiad â chais penodol, y caniateir ei estyn o dan adran 34(7) o'r Ddeddf honno (ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff(2));

ystyr "Cymru" ("*Wales*") yw ardal gyfunol y siroedd a'r bwrdeistrefi sirol yng Nghymru (gweler Rhannau 1 a 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**));

mae i "datblygiad" ("*development*") yr ystyr a roddir yn adran 133 o Ddeddf 2024;

ystyr "datblygiad AEA" ("*EIA development*") yw gweithgarwch—

(a) sy'n "datblygiad AEA" fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**3**), neu

(b) sy'n gofyn am asesiad effaith amgylcheddol yn unol â rheoliad 2A neu Ran 2 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007(**4**);

ystyr "Deddf 2024" ("*the 2024 Act*") yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024;

"applicant" ("*ceisydd*") means a person who makes an application for an infrastructure consent order;

"application" ("*cais*") means an application for infrastructure consent made under section 32 of the 2024 Act and includes any agreed variation;

"determination of procedure" ("*dyfarniad o'r weithdrefn*") means a determination under section 42(1) or (5) of the 2024 Act;

"development" ("*datblygiad*") has the meaning in section 133 of the 2024 Act;

"EIA development" ("*datblygiad AEA*") means activity that—

(a) is "EIA development" as defined in regulation 2 of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017(**1**), or

(b) requires an environmental impact assessment in accordance with regulation 2A or Part 2 of the Marine Works (Environmental Impact Assessment) Regulations 2007(**2**);

"examining authority" ("*awdurdod archwilio*") means a person or panel of persons appointed under section 40 of the 2024 Act in respect of a particular application;

"further representations" ("*sylwadau pellach*") means oral or written representations further to initial written representations;

"further written representations" ("*sylwadau ysgrifenedig pellach*") means representations on the application that are made in accordance with regulation 19;

"infrastructure consent" ("*cydsyniad seilwaith*") means the consent required by section 19 of the 2024 Act;

"infrastructure consent order" ("*gorchymyn cydsyniad seilwaith*") means an order made under the 2024 Act granting infrastructure consent;

"initial written representations" ("*sylwadau ysgrifenedig cychwynnol*") means representations on the application that were made during the representation period (but this is subject to paragraph (2));

(**1**) 1990 p. 8.
(**2**) 1972 p. 70. Diwygiwyd Rhan 1 gan adran 1(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi a diwygiwyd Rhan 2 gan adran 1(2) o'r Ddeddf honno a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddi.
(**3**) O.S. 2017/567 (Cy. 136) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2007/1518; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2011/735, O.S. 2015/446, O.S. 2017/588, O.S. 2019/25.

(**1**) S.I. 2017/567 (W. 136) to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(**2**) S.I. 2007/1518; relevant amending instruments are S.I. 2011/735, S.I. 2015/446, S.I. 2017/588, S.I. 2019/25.

ystyr "dyfarniad o'r weithdrefn" ("*determination of procedure*") yw dyfarniad o dan adran 42(1) neu (5) o Ddeddf 2024;

ystyr "gorchymyn cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent order*") yw gorchymyn a wneir o dan Ddeddf 2024 sy'n rhoi cydsyniad seilwaith;

mae i "gwrandawiad llawr agored" ("*open floor hearing*") yr ystyr a roddir yn adran 43(3) o Ddeddf 2024;

ystyr "o bell" ("*remotely*") yw drwy gyfrwng—

(a) cyswllt ffôn byw,

(b) cyswllt fideo byw, neu

(c) unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy'n galluogi personau nad ydynt yn yr un lle i gyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol;

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel o bersonau a benodir i archwilio cais o dan adran 40 o Ddeddf 2024;

ystyr "parti a chanddo fuddiant" ("*interested party*") yw—

(a) y ceisydd;

(b) unrhyw berson a hysbyswyd am y cais yn unol ag adran 34(2)(a) neu (b) o Ddeddf 2024;

(c) unrhyw ymgynghorai statudol;

(d) unrhyw ymgynghorai arbenigol;

(e) unrhyw berson arall a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig cychwynnol mewn perthynas â chais penodol

(ond gweler paragraff (2));

ystyr "Rheoliadau Caffael Gorfodol 2025" ("*the 2025 Compulsory Acquisition Regulations*") yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025(**1**);

ystyr "Rheoliadau Ceisiadau 2025" ("*the 2025 Application Regulations*") yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025(**2**);

mae "sylw" ("*representation*") yn cynnwys tystiolaeth;

ystyr "sylwadau pellach" ("*further representations*") yw sylwadau llafar neu ysgrifenedig yn ychwanegol at sylwadau ysgrifenedig cychwynnol;

"interested party" ("*parti a chanddo fuddiant*") means—

(a) the applicant;

(b) any person notified of the application in accordance with section 34(2)(a) or (b) of the 2024 Act;

(c) any statutory consultee;

(d) any specialist consultee;

(e) any other person who made initial written representations in respect of a particular application;

(but see paragraph (2));

"land" ("*tir*") includes buildings, monuments and land covered with waters (including the sea bed);

"open floor hearing" ("*gwrandawiad llawr agored*") has the meaning in section 43(3) of the 2024 Act;

"panel" ("*panel*") means a panel of persons appointed to examine an application under section 40 of the 2024 Act;

"planning authority" ("*awdurdod cynllunio*") means the local planning authority within the meaning given by Part 1 of the Town and Country Planning Act 1990(**1**)—

(a) where an application is for development in Wales, for an area in which the proposed development is located;

(b) for the area nearest to the area to which the application relates, in the case of an application for development in the Welsh marine area;

"remotely" ("*o bell*") means by means of—

(a) a live telephone link,

(b) a live video link, or

(c) any other equipment or facility that enables persons who are not in the same place to make representations at the hearing or local inquiry;

"representation" ("*sylw*") includes evidence;

"representation period" ("*cyfnod ar gyfer sylwadau*") means the period ending with the deadline specified pursuant to section 34(4) of the 2024 Act in respect of a particular application, as may be extended under section 34(7) of that Act (but this is subject to paragraph (2));

"specialist consultee" ("*ymgynghorai arbenigol*") has the meaning in regulation 3(2)(b) of the 2025 Applications Regulations;

(**1**) O.S. 2025/691 (Cy. 115).
(**2**) O.S. 2025/690 (Cy. 114).

(**1**) 1990 c. 8.

ystyr "sylwadau ysgrifenedig" ("*written representations*") yw sylwadau ysgrifenedig cychwynnol ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach;

ystyr "sylwadau ysgrifenedig cychwynnol" ("*initial written representations*") yw sylwadau ar y cais a wnaed yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau (ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (2));

ystyr "sylwadau ysgrifenedig pellach" ("*further written representations*") yw sylwadau ar y cais a wneir yn unol â rheoliad 19;

mae "tir" ("*land*") yn cynnwys adeiladau, henebion a thir sydd wedi ei orchuddio â dyfroedd (gan gynnwys gwely'r môr);

mae i "ymgynghorai arbenigol" ("*specialist consultee*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3(2)(b) o Reoliadau Ceisiadau 2025;

mae i "ymgynghorai statudol" ("*statutory consultee*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3(2)(a) o Reoliadau Ceisiadau 2025.

(2) Pan fo cais wedi ei amrywio o dan Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 i gynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, mae rheoliad 25 o'r Rheoliadau hynny yn gwneud darpariaeth wahanol ynghylch ystyr "cyfnod ar gyfer sylwadau" mewn cysylltiad â "sylwadau ysgrifenedig cychwynnol" a "parti a chanddo fuddiant".

(3) Pan ymgynghorir ag ymgynghorai statudol o dan reoliad 19(1) (sylwadau ysgrifenedig pellach), 31(5) i (7) a (10) (penderfyniad gan awdurdod archwilio: ystyriaethau newydd), 32(5) i (7) a (10) (penderfyniad gan Weinidogion Cymru: ystyriaethau newydd), 33 (cyfarwyddyd i ailagor archwiliad) neu 39(2) (gweithdrefn ar ôl dileu penderfyniad), ymateb o sylwedd at ddibenion adran 129(4)(b) o Ddeddf 2024 yw ymateb—

(a) sy'n nodi—

(i) barn yr ymgynghorai statudol ar y cwestiwn a ofynnwyd gan yr awdurdod archwilio, neu

(ii) nad oes barn gan yr ymgynghorai statudol neu nad oes ganddo ddim i'w ychwanegu at ei sylwadau blaenorol, a

(b) yn achos ymgynghoriad o dan reoliad 19, sy'n cydymffurfio â pharagraff (4) o'r rheoliad hwnnw.

"statutory consultee" ("*ymgynghorai statudol*") has the meaning in regulation 3(2)(a) of the 2025 Applications Regulations;

"timetable" ("*amserlen*") means a timetable in relation to the application prepared in accordance with regulation 11;

"Wales" ("*Cymru*") means the combined area of the counties and county boroughs in Wales (see Parts 1 and 2 of Schedule 4 to the Local Government Act 1972(**1**));

"Welsh marine area" ("*ardal forol Cymru*") means the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea; and the question of which parts of the sea are adjacent to Wales is to be determined in accordance with article 6 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(**2**);

"written representations" ("*sylwadau ysgrifenedig*") means initial written representations and any further written representations.

(2) Where an application has been varied under the 2025 Compulsory Acquisition Regulations to include a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land, regulation 25 of those Regulations makes different provision as to the meaning of "representation period" in connection with "initial written representations" and of "interested party".

(3) Where a statutory consultee is consulted under regulation 19(1) (further written representations), 31(5) to (7) and (10) (decision by examining authority: new considerations), 32(5) to (7) and (10) (decision by Welsh Ministers: new considerations), 33 (direction to re-open examination) or 39(2) (procedure following quashing of decision), a substantive response for the purposes of section 129(4)(b) of the 2024 Act is a response which—

(a) states—

(i) the view of the statutory consultee on the question posed by the examining authority, or

(ii) that the statutory consultee has no view or nothing further to its previous representations, and

(b) in the case of consultation under regulation 19, complies with paragraph (4) of that regulation.

(**1**) 1972 c. 70. Part 1 was amended by the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19), section 1(2) and Schedule 1, paragraph 1 and Part 2 was amended by section 1(2) and Schedule 1, paragraph 2 of that Act.

(**2**) S.I. 1999/672 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(4) Gweler adran 136 o Ddeddf 2024 mewn perthynas â darpariaeth yn y Rheoliadau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson neu sy'n awdurdodi person i—

(a) hysbysu person arall am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson arall (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno", "rhoi" neu derm arall).

(5) Pan fo gwrandawiad neu ymchwiliad lleol yn cael ei ailagor o dan y Rheoliadau hyn neu o dan Ddeddf 2024, mae darpariaethau'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliad 3, yn gymwys fel pe na bai'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad wedi ei gau.

(4) See section 136 of the 2024 Act in relation to provision in these Regulations which requires or authorises a person to—

(a) notify another person of something, or

(b) give a document to another person (whether the provision uses the word "serve", "give" or other term).

(5) Where a hearing or local inquiry is re-opened under these Regulations or under the 2024 Act, the provisions of these Regulations, except regulation 3, apply as if the hearing or inquiry had not been closed.

RHAN 2

Yr awdurdod archwilio

PART 2

The examining authority

Penodi awdurdod archwilio

3. Rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu dyletswydd o dan adran 40(1) o Ddeddf 2024 (penodi awdurdod archwilio ar gyfer cais dilys) cyn diwedd 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf y cyfnod ar gyfer sylwadau.

Appointing an examining authority

3. The Welsh Ministers must exercise their duty under section 40(1) of the 2024 Act (appointing an examining authority for a valid application) before the end of 7 days beginning with the day after the last day of the representation period.

Penodi panel yn awdurdod archwilio

4.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn penodi panel o bersonau fel yr awdurdod archwilio, rhaid iddo benodi un o'i aelodau i gadeirio'r panel.

(2) Nid yw newid i aelodaeth neu gadeiryddiaeth panel, na sedd wag mewn cysylltiad ag aelodaeth neu gadeiryddiaeth panel, yn effeithio ar—

(a) y materion a wnaed gan y panel, neu mewn perthynas â'r panel, cyn y newid hwnnw;

(b) hunaniaeth barhaus y panel.

Appointing a panel as an examining authority

4.—(1) If the Welsh Ministers appoint a panel of persons as the examining authority, it must appoint one of its members to chair the panel.

(2) A change of, or vacancy in, the membership or chair of a panel does not affect—

(a) the matters done by, or in relation to, the panel before that change;

(b) the continuing identity of the panel.

Amnewid panel neu berson fel awdurdod archwilio

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg—

(a) rhoi person yn lle panel;

(b) rhoi panel newydd yn lle panel;

(c) rhoi panel yn lle person;

(d) rhoi person newydd yn lle person.

(2) Caiff yr awdurdod archwilio newydd drin pethau a wnaed gan yr awdurdod archwilio blaenorol, neu mewn perthynas ag ef, fel petaent wedi eu gwneud, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan y panel newydd hwnnw neu mewn perthynas ag ef.

Replacing a panel or person as examining authority

5.—(1) The Welsh Ministers may at any time—

(a) replace a panel with a person;

(b) replace a panel with a new panel;

(c) replace a person with a panel;

(d) replace a person with a new person.

(2) The replacement examining authority may treat things done by or in relation to the previous examining authority as done, in whole or in part, by or in relation to that new panel.

Hysbysiad o awdurdod archwilio

6.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y ceisydd a'r awdurdod cynllunio yn cael eu hysbysu am enw a manylion cyswllt yr awdurdod archwilio a benodir—

(a) yn achos y penodiad cyntaf, o fewn 7 niwrnod sy'n dechrau â'r dyddiad y gwneir y penodiad;

(b) yn achos unrhyw benodiad dilynol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw newid i'r awdurdod archwilio.

(3) Rhaid i'r person sy'n cyflawni rôl yr awdurdod archwilio neu gadeirydd y panel sy'n cyflawni rôl yr awdurdod archwilio gyhoeddi ei benodiad, ei enw a'r dull o gysylltu ag ef ar ddechrau gwrandawiad neu ymchwiliad lleol.

Dyrannu swyddogaethau gan banel

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo panel yn cael ei benodi i archwilio cais.

(2) Caiff y panel ddyrannu unrhyw ran o'r archwiliad i unrhyw un neu ragor o'i aelodau.

(3) Pan fo'r panel yn gwneud dyraniad o dan baragraff(2)—

(a) caiff unrhyw beth a wneir gan y panel, neu iddo, mewn cysylltiad â'r rhan o'r archwiliad a ddyrannwyd gael ei wneud gan yr aelod o dan sylw neu iddo neu gan y panel, a

(b) caiff canfyddiadau a chasgliadau'r aelod o dan sylw eu trin fel canfyddiadau a chasgliadau'r panel.

(4) Mae paragraff (3)(b) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y panel a wnaed ar adeg y dyraniad neu cyn y dyraniad, o ran statws unrhyw ganfyddiadau neu gasgliadau o'r fath.

Gwneud penderfyniadau gan banel

8.—(1) Rhaid i banel wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â'r archwiliad neu'r cais drwy gytundeb y mwyafrif o'i aelodau.

(2) Os nad yw aelodau panel yn gallu dod i benderfyniad drwy gytundeb y mwyafrif o'i aelodau pan fo nifer yr aelodau'n eilrif, mae gan gadeirydd y panel bleidlais fwrw.

Notification of examining authority

6.—(1) The Welsh Ministers must ensure that the applicant and the planning authority are notified of the name and contact details of the examining authority appointed—

(a) in the case of the first appointment, within 7 days beginning with the date that the appointment is made;

(b) in the case of any subsequent appointment, as soon as reasonably practicable.

(2) The Welsh Ministers must notify the applicant and the planning authority as soon as reasonably practicable of any change of or to the examining authority.

(3) The person who is the examining authority or the chair of the panel who is the examining authority must announce their appointment, name and the means of contacting them at the start of a hearing or local inquiry.

Allocation of functions by a panel

7.—(1) This regulation applies when a panel is appointed to examine an application.

(2) The panel may allocate any part of the examination to any of its members.

(3) Where the panel makes an allocation under paragraph (2)—

(a) anything that is done by, or to, the panel in connection with the allocated part of the examination, may be done by or to the member in question or by the panel, and

(b) findings and conclusions of the member in question are treated as findings and conclusions of the panel.

(4) Paragraph (3)(b) is subject to any decision of the panel made on or before the allocation, as to the status of any such findings or conclusions.

Decision-making by a panel

8.—(1) A panel must make decisions in respect of the examination or application by agreement of the majority of its members.

(2) If the members of a panel with an even number of members are unable to reach a decision by agreement of the majority of its members, the chair of the panel has a casting vote.

RHAN 3

Paratoi ar gyfer archwiliad a'i reoli

Gwrandawiadau llawr agored

9.—(1) Rhaid i'r awdurdod archwilio gynnal gwrandawiad llawr agored os yw un neu ragor o bersonau yn gwneud archiad am hynny, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3).

(2) Rhaid i archiad am wrandawiad llawr agored gydymffurfio â rheoliad 24(j) a (k) o Reoliadau Ceisiadau 2025.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i archiad i'r graddau y mae'r archiad yn ymwneud â sylwadau sydd o fewn unrhyw ddisgrifiad yn adran 58(1) o Ddeddf 2024.

Dyfarniad o'r weithdrefn

10.—(1) Rhaid i'r awdurdod archwilio arfer ei swyddogaeth o dan adran 42(1) o Ddeddf 2024 (dyfarniad o'r weithdrefn) cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf y cyfnod ar gyfer sylwadau, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (2).

(2) Pan fo cais wedi ei amrywio o dan Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 i gynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir—

(a) mae rheoliad 22 o'r Rheoliadau hynny (cyfarfod ynghylch y weithdrefn archwilio) yn gymwys, a

(b) mae rheoliad 23 o'r Rheoliadau hynny yn gymwys o ran y dyddiad ar gyfer dyfarniad o'r weithdrefn.

Yr amserlen ar gyfer archwiliad

11.—(1) Pan fo'r awdurdod archwilio wedi gwneud dyfarniad o'r weithdrefn, rhaid iddo lunio amserlen ar gyfer archwilio'r cais.

(2) Rhaid i'r amserlen a gaiff ei llunio o dan baragraff (1) nodi—

(a) y dyddiad erbyn pryd y caiff y ceisydd gyflwyno sylwadaeth ar unrhyw sylwadau ysgrifenedig cychwynnol sy'n berthnasol i archwilio'r cais,

(b) y pynciau y mae angen unrhyw sylwadau pellach arnynt,

(c) y personau (os oes rhai) sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno sylwadau pellach ar unrhyw fater,

PART 3

Preparation for, and managing, examination

Open floor hearings

9.—(1) The examining authority must hold an open-floor hearing if one or more persons so request, but this is subject to paragraphs (2) and (3).

(2) A request for an open-floor hearing must comply with regulation 24(j) and (k) of the 2025 Applications Regulations.

(3) Paragraph (1) does not apply to a request to the extent that the request relates to representations that are within any description in section 58(1) of the 2024 Act.

Determination of procedure

10.—(1) The examining authority must exercise its function under section 42(1) of the 2024 Act (determination of procedure) before the end of 28 days beginning with the day after the last day of the representation period, but this is subject to paragraph (2).

(2) Where an application has been varied under the 2025 Compulsory Acquisition Regulations to include a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land—

(a) regulation 22 of those Regulations (meeting about examination procedure) applies, and

(b) regulation 23 of those Regulations applies as to the date for determination of procedure.

Timetable for examination

11.—(1) When the examining authority has made a determination of procedure, it must prepare a timetable for the examination of the application.

(2) The timetable prepared under paragraph (1) must set out—

(a) the date by which the applicant may comment on any initial written representations that are relevant to the examination of the application,

(b) the topics on which any further representations are required,

(c) the persons (if any) who are invited to make further representations on any matter,

(d) pa rai o unrhyw sylwadau pellach sydd i'w gwneud yn ysgrifenedig, mewn gwrandawiad neu mewn ymchwiliad lleol,

(e) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach,

(f) y dyddiad erbyn pryd y caiff y ceisydd gyflwyno sylwadaeth ysgrifenedig ar unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach sy'n berthnasol i archwilio'r cais,

(g) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i unrhyw berson sydd wedi gwneud archiad i gyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad llawr agored gadarnhau i'r awdurdod archwilio ei fod yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawiad llawr agored,

(h) y dyddiad erbyn pryd y mae'r awdurdod archwilio yn bwriadu adrodd o dan naill ai adran 52 o Ddeddf 2024 (adroddiad i Weinidogion Cymru) neu reoliad 31(2) (adroddiad penderfynu), a

(i) unrhyw ddyddiad arall y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn rheoli'r archwiliad yn effeithlon.

(3) Caiff yr awdurdod archwilio amrywio'r amserlen ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar gais o dan Ran 5 o Ddeddf 2024, os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

(4) Pan fo cais wedi ei amrywio o dan Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 i gynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i—

(a) rheoliad 24(1) o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 (gofynion ychwanegol ynghylch yr amserlen), a

(b) rheoliad 24(2) (gwahodd personau i gyflwyno sylwadau pellach).

Hysbysiad o ddewis o weithdrefn a'r amserlen

12.—(1) Rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r canlynol am unrhyw ddyfarniad o'r weithdrefn a'r amserlen neu amrywiad i amserlen—

(a) y ceisydd,

(b) yr awdurdod cynllunio, ac

(c) unrhyw berson arall sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach.

(2) Caiff yr awdurdod archwilio hysbysu unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol am unrhyw ddyfarniad o'r weithdrefn a'r amserlen neu amrywiad i amserlen.

(d) which of any further representations are to be made in writing, at a hearing or at a local inquiry,

(e) the date by which any further written representations must be made,

(f) the date by which the applicant may comment in writing on any further written representations that are relevant to the examination of the application,

(g) the date by which any person who has requested to make representations at an open-floor hearing must confirm to the examining authority that they intend to attend the open floor hearing,

(h) the date by which the examining authority intends to report under either section 52 of the 2024 Act (report to the Welsh Ministers) or regulation 31(2) (decision report), and

(i) any other date that the examining authority considers appropriate in order to manage the examination efficiently.

(3) The examining authority may vary the timetable at any time before an application is decided under Part 5 of the 2024 Act, if it considers it necessary or appropriate.

(4) Where an application has been varied under the 2025 Compulsory Acquisition Regulations to include a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land, this regulation is subject to—

(a) regulation 24(1) of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations (additional requirements as to the timetable), and

(b) regulation 24(2) (inviting persons to make further representations).

Notification of choice of procedure and timetable

12.—(1) The examining authority must notify the following of any determination of procedure and the timetable or a variation of a timetable—

(a) the applicant,

(b) the planning authority, and

(c) any other person who is invited to make further representations.

(2) The examining authority may notify any other person they consider appropriate of any determination of procedure and the timetable or a variation of a timetable.

(3) Rhaid i'r awdurdod archwilio roi'r hysbysiad sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn y cyfnod o 5 diwrnod gwaith, gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl dyfarnu'r weithdrefn.

Amseru a lleoliad gwrandawiad neu ymchwiliad lleol a chyfranogi ynddo

13.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol.

(2) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu pwy sydd i'w wahodd i gyflwyno sylwadau pellach mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, ond—

(a) rhaid iddo wahodd y ceisydd i wneud hynny;

(b) yn achos personau sydd wedi gwneud archiad am wrandawiad llawr agored, mae gan y personau hynny a'r ceisydd hawlogaeth i gyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad hwnnw.

(3) Pan fo cais wedi ei amrywio i gynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, gweler hefyd reoliad 24(2) o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 (gwahodd personau i gyflwyno sylwadau pellach).

(4) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu—

(a) lle a phryd i gynnal y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol;

(b) pa un ai i'w gynnal (neu gynnal unrhyw ran ohono) o bell.

(5) I'r graddau y cynhelir gwrandawiad neu ymchwiliad lleol heb fod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o bell, rhaid i'r awdurdod archwilio roi sylw i ddymunoldeb ei gynnal mor agos â phosibl at leoliad y datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

(6) Rhaid i'r awdurdod archwilio ddechrau gwrandawiad neu ymchwiliad lleol heb fod yn hwyrach na 10 wythnos gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer sylwadau, oni bai—

(a) bod y ceisydd yn cytuno fel arall, neu

(b) bod paragraff (7) yn gymwys.

(7) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo unrhyw un neu ragor o'r canlynol wedi digwydd—

(a) mae Gweinidogion Cymru wedi derbyn amrywiad i'r cais o dan reoliad 31 o Reoliadau Ceisiadau 2025,

(b) mae'r awdurdod archwilio—

(i) wedi gwneud dyfarniad bod y cais i'w archwilio ar sail y cais ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig, a

(3) The examining authority must give the notification required by this regulation as soon as reasonably practicable and in any event within the period of 5 working days, beginning with the day after the determination of procedure is made.

Timing and location of, and participation in, hearing or local inquiry

13.—(1) This regulation applies where the examining authority determines that an application is to be examined, in whole or in part, at a hearing or local inquiry.

(2) The examining authority is to decide who to invite to make further representations at a hearing or local inquiry, but—

(a) must invite the applicant to do so;

(b) in the case of persons who requested an open floor hearing, those persons and the applicant are entitled to make representations at such a hearing.

(3) Where an application has been varied to include a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land, see also regulation 24(2) of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations (inviting persons to make further representations).

(4) The examining authority is to decide—

(a) where and when to hold the hearing or local inquiry;

(b) whether to hold it (or any part of it) remotely.

(5) To the extent that a hearing or local inquiry is held other than wholly or partly remotely, the examining authority must have regard to the desirability of holding it as close as possible to the location of the development to which the application relates.

(6) The examining authority must begin a hearing or local inquiry no later than 10 weeks beginning with the day after the end of the representation period, unless—

(a) the applicant agrees otherwise, or

(b) paragraph (7) applies.

(7) This paragraph applies where any of the following has occurred—

(a) the Welsh Ministers have accepted a variation of the application under regulation 31 of the 2025 Applications Regulations,

(b) the examining authority—

(i) has made a determination that the application is to be examined on the basis of the application and any written representations, and

(ii) yn gwneud dyfarniad pellach o dan adran 42(5) o Ddeddf 2024,

(c) mae'r awdurdod archwilio wedi penderfynu na fydd y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol yn digwydd yn gyfan gwbl o bell ac na ellir sicrhau lleoliad addas ar ddyddiad i gydymffurfio â pharagraff (6), neu

(d) mae'r awdurdod archwilio wedi penderfynu bod angen sylwadau pellach o dan reoliad 19 cyn y gall y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol ddechrau, ac na ellir yn rhesymol eu darparu mewn pryd i gydymffurfio â pharagraff (6).

(8) Pan fo paragraff (7) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod archwilio ddechrau'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff(6).

(9) Rhaid i'r person penodedig roi o leiaf 6 wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r canlynol o ddyddiad, amser cychwyn ac unrhyw leoliad ar gyfer y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol—

(a) y ceisydd,

(b) yr awdurdod cynllunio,

(c) unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, a

(d) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried ei fod yn briodol.

Cyhoeddusrwydd ar gyfer gwrandawiad neu ymchwiliad lleol

14.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol.

(2) Rhaid i'r ceisydd gyhoeddi mewn hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef—

(a) disgrifiad o'r cais,

(b) disgrifiad o leoliad y tir,

(c) dyddiad ac amser y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(d) lleoliad y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(e) manylion am unrhyw drefniadau ar gyfer darlledu'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(f) y pynciau i'w harchwilio yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(ii) makes a further determination under section 42(5) of the 2024 Act,

(c) the examining authority has decided that the hearing or local inquiry will not take place wholly remotely and a suitable venue cannot be secured at a date to comply with paragraph (6), or

(d) the examining authority has decided that further written representations under regulation 19 are necessary before the hearing or local inquiry can begin, and they cannot reasonably be provided in time to comply with paragraph (6).

(8) Where paragraph (7) applies, the examining authority must begin the hearing or local inquiry as soon as reasonably practicable after the period referred to in paragraph (6).

(9) The appointed person must give the following at least 6 weeks' notice in writing of the date, start time and any location of the hearing or local inquiry—

(a) the applicant,

(b) the planning authority,

(c) any person invited to make representations at a hearing or local inquiry, and

(d) any other person that the examining authority considers appropriate.

Publicity for hearing or local inquiry

14.—(1) This regulation applies where the examining authority determine that an application is to be examined by way of hearing or local inquiry.

(2) The applicant must publish in a notice in a newspaper circulating in the locality of the land to which the application relates—

(a) a description of the application,

(b) a description of the location of the land,

(c) the date and time of the hearing or local inquiry,

(d) the place of the hearing or local inquiry,

(e) details of any arrangements for broadcasting the hearing or local inquiry,

(f) the topics to be examined at the hearing or local inquiry,

(g) manylion lle yn yr ardal lle y gellir ar bob adeg resymol archwilio'r cais a'r sylwadau ysgrifenedig cychwynnol, ac

(h) cyfeiriad y wefan lle y gellir dod o hyd i'r cais a'r sylwadau ysgrifenedig cychwynnol.

(3) Rhaid i'r ceisydd gydymffurfio â pharagraff (2) heb fod yn hwyrach na 4 wythnos cyn diwrnod cyntaf y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol.

(4) Rhaid i'r ceisydd arddangos hysbysiad sy'n cynnwys yr wybodaeth ym mharagraff (2) mewn man amlwg ar neu ger y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, am o leiaf 4 wythnos cyn diwrnod cyntaf y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol.

(5) Os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad llinellol yng Nghymru sy'n fwy na 5km o hyd, rhaid arddangos yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) bob 5km ar y mwyaf oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny.

(6) Pan fo hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) yn cael ei symud ymaith, yn cael ei guddio neu yn cael ei ddifwyno cyn diwedd y cyfnod o 4 wythnos, a hynny heb fod bai ar y ceisydd, trinnir y ceisydd fel pe bai wedi cydymffurfio â'r paragraff hwnnw os yw wedi cymryd camau rhesymol i warchod yr hysbysiad, ac, os oes angen, i roi un arall yn ei le.

(7) Rhaid i'r ceisydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) anfon copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd o dan baragraff (2) i'r awdurdod archwilio, a

(b) cadarnhau i'r awdurdod archwilio ei fod wedi arddangos yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff (4) a darparu ffotograff o'r hysbysiad hwnnw wedi ei osod yn ei le.

(8) Os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad yn ardal forol Cymru, mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef i'w darllen fel cyfeiriadau at y tir yng Nghymru sydd agosaf at y datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Datganiadau ysgrifenedig o dystiolaeth

15.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach mewn ymchwiliad yn cynnig rhoi, neu'n cynnig galw person arall i roi, tystiolaeth yn yr ymchwiliad.

(2) Gall yr awdurdod archwilio ei gwneud yn ofynnol i'r person lunio datganiad ysgrifenedig o'r dystiolaeth honno.

(3) Rhaid i'r person sy'n llunio'r datganiad ysgrifenedig ddarparu crynodeb o'r datganiad ysgrifenedig os yw'n fwy na 1,500 o eiriau.

(g) details of a place in the locality where the application and initial written representations can be inspected at all reasonable hours, and

(h) the address of the website where the application and initial written representations can be found.

(3) The applicant must comply with paragraph (2) no later than 4 weeks before the first day of the hearing or local inquiry.

(4) The applicant must display a notice containing the information in paragraph (2) in a conspicuous place on or near the land to which the application relates, for at least 4 weeks before the first day of the hearing or local inquiry.

(5) If the application relates to linear development in Wales that is more than 5km in length, the notice referred to in paragraph (4) must be displayed at intervals of not more than 5km unless it is impracticable to do so.

(6) Where a notice referred to in paragraph (4) is, without the fault of the applicant, removed, obscured or defaced before the end of the 4 weeks, the applicant is treated as having complied with that paragraph if it has taken reasonable steps for the protection of the notice, and, if necessary, its replacement.

(7) The applicant must as soon as reasonably practicable—

(a) send a copy of the notice published under paragraph (2) to the examining authority, and

(b) confirm to the examining authority that it has displayed the notice required by paragraph (4) and provide a photograph of that notice in place.

(8) If the application relates to development in the Welsh marine area, references in this regulation to the land to which the application relates are to be read as references to the land in Wales nearest the development to which the application relates.

Written statements of evidence

15.—(1) This regulation applies if any person invited to make further representations at an inquiry proposes to give, or to call another person to give, evidence at the inquiry.

(2) The examining authority may require the person to prepare a written statement of that evidence.

(3) The person preparing the written statement must provide a summary of the written statement if it is more than 1,500 words.

(4) Ni chaiff y crynodeb y cyfeirir ato ym mharagraff (3) fod yn fwy na 1,500 o eiriau.

(5) Rhaid i'r person sy'n llunio'r datganiad ysgrifenedig anfon copi o'r datganiad ysgrifenedig ac unrhyw grynodeb i'r awdurdod archwilio erbyn y dyddiad a bennir yn yr amserlen.

(6) Rhaid i'r awdurdod archwilio, cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael y datganiad ysgrifenedig ac unrhyw grynodeb—

(a) anfon copi o'r dogfennau hynny at bob person sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach yn yr ymchwiliad, a

(b) sicrhau bod copi o'r dogfennau hynny ar gael ar y wefan y cyfeirir ati yn rheoliad 16.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "datganiad ysgrifenedig" yw datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â pharagraff (2).

Darparu gwefan

16. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu gwefan lle y gellir dod o hyd i gopïau o'r cais a dogfennau eraill sy'n berthnasol i'r archwiliad.

Cyngor i Weinidogion Cymru

17.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar unrhyw archiad i amrywio cais a wneir o dan reoliad 31 o Reoliadau Ceisiadau 2025 neu o dan reoliad 16 o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025.

(4) The summary referred to in paragraph (3) must not be more than 1,500 words.

(5) The person preparing the written statement must send a copy of the written statement and any summary to the examining authority by the date specified in the timetable.

(6) The examining authority must, as soon as possible after it receives the written statement and any summary—

(a) send a copy of those documents to each person who is invited to make further representations at the inquiry, and

(b) ensure that a copy of those documents is available on the website referred to in regulation 16.

(7) In this regulation, "written statement" means a statement prepared pursuant to paragraph (2).

Provision of website

16. The Welsh Ministers must provide a website where copies of the application and other documents which are relevant to the examination can be found.

Advice to the Welsh Ministers

17. The examining authority may provide advice to the Welsh Ministers on any request to vary an application made under regulation 31 of the 2025 Applications Regulations or under regulation 16 of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations.

RHAN 4

Archwiliad

Sylwadau ysgrifenedig cychwynnol

18.—(1) Mae archwiliad yr awdurdod archwilio o'r cais i gynnwys ystyriaeth o unrhyw sylwadau ysgrifenedig cychwynnol.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio sicrhau bod y ceisydd yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadaeth ar unrhyw sylwadau ysgrifenedig cychwynnol sy'n berthnasol i archwilio'r cais.

Ceisio sylwadau ysgrifenedig pellach

19.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio wneud archiad am sylwadau pellach yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg gan unrhyw barti a chanddo fuddiant.

PART 4

Examination

Initial written representations

18.—(1) The examining authority's examination of the application is to include consideration of any initial written representations.

(2) The examining authority must ensure that the applicant has the opportunity to comment on any initial written representation relevant to the examination of the application.

Seeking further written representations

19.—(1) The examining authority may request further representations in writing at any time from any interested party.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n darparu sylwadau pellach yn ysgrifenedig o dan baragraff (1) eu darparu o fewn 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r awdurdod archwilio yn gwneud yr archiad.

(3) Caiff yr awdurdod archwilio estyn y terfyn amser ym mharagraff (2) mewn achos penodol.

(4) Ni chaiff unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach fod yn fwy na 3,000 o eiriau.

(5) Rhaid i'r awdurdod archwilio roi cyfle i'r ceisydd gyflwyno sylwadaeth ar unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach sy'n berthnasol i archwilio'r cais.

(6) Rhaid i'r awdurdod archwilio sicrhau bod copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach ar gael ar y wefan y cyfeirir ati yn rheoliad16.

Y dull o gynnal gwrandawiad

20.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn gwrandawiad.

(2) Yr awdurdod archwilio sydd i lywyddu yn y gwrandawiad a phenderfynu—

(a) sut i'w reoli;

(b) y pynciau sydd i'w trafod;

(c) yr amser a ddyrennir i'r pynciau hynny.

(3) Mae gwrandawiad i gymryd ffurf trafodaeth a arweinir gan yr awdurdod archwilio.

(4) Ar ddechrau'r gwrandawiad, rhaid i'r awdurdod archwilio—

(a) crynhoi'r pynciau y bydd y gwrandawiad yn eu harchwilio, a

(b) nodi unrhyw bynciau pellach y bydd y gwrandawiad yn eu harchwilio na chawsant eu nodi yn amserlen yr archwiliad.

(5) Caiff yr awdurdod archwilio holi person sy'n bresennol yn y gwrandawiad, ond ni chaiff person sy'n bresennol yn y gwrandawiad holi person arall sy'n bresennol yn y gwrandawiad ac eithrio pan fo paragraff (6) yn gymwys.

(6) Caiff yr awdurdod archwilio ganiatáu i berson sy'n cyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad ("P") holi person arall sy'n cyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad os yw'r awdurdod archwilio yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau—

(a) bod unrhyw sylw yn cael ei brofi'n ddigonol, neu

(b) bod gan P gyfle teg i wneud ei achos.

(7) Wrth gynnal y gwrandawiad, caiff yr awdurdod archwilio yn benodol—

(a) bwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb person a gafodd ei wahodd i fod yn bresennol;

(2) Any person providing further representations in writing under paragraph (1) must provide them within 14 days beginning with the date that the examining authority makes the request.

(3) The examining authority may extend the time limit in paragraph (2) in a particular case.

(4) Any further written representations must not exceed 3,000 words.

(5) The examining authority must provide the applicant with the opportunity to comment on any further written representations which are relevant to the examination of the application.

(6) The examining authority must ensure that a copy of any further written representations is available on the website referred to in regulation 16.

Conduct of a hearing

20.—(1) This regulation applies where the examining authority determines that an application is to be examined, in whole or in part, at a hearing.

(2) The examining authority is to preside at the hearing and is to decide—

(a) how to manage it;

(b) the topics to be discussed;

(c) the time allocated to those topics.

(3) A hearing is to take the form of a discussion led by the examining authority.

(4) At the opening of the hearing, the examining authority must—

(a) summarise the topics that the hearing will examine, and

(b) identify any further topics that the hearing will examine that were not identified in the timetable for the examination.

(5) The examining authority may question a person who attends the hearing, but a person attending the hearing may not question another person who attends a hearing except where paragraph (6) applies.

(6) The examining authority may allow a person who makes representations at the hearing ("P") to question another person who makes representations at the hearing if the examining authority considers that it is necessary in order to ensure—

(a) adequate testing of any representation, or

(b) that P has a fair chance to make their case.

(7) In the conduct of the hearing, the examining authority may in particular—

(a) proceed with the hearing in the absence of a person invited to attend;

(b) gwrthod caniatáu sylwadau y mae'n ystyried eu bod yn amherthnasol neu'n ailadroddus;

(c) gwahardd person sy'n aflonyddu;

(d) gwrthod caniatáu i berson sydd wedi ei wahardd am aflonyddu ddychwelyd;

(e) caniatáu i berson sydd wedi ei wahardd am aflonyddu ddychwelyd, yn amodol ar amodau penodedig;

(f) gohirio'r gwrandawiad;

(g) gwahodd unrhyw berson sy'n cyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad i gyflwyno cyflwyniadau cloi yn ysgrifenedig.

(8) Rhaid i berson sy'n cyflwyno cyflwyniadau cloi o dan baragraff (7)(g) eu rhoi i'r awdurdod archwilio o fewn 7 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf y gwrandawiad.

(9) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio gwrandawiad, rhaid iddo roi rhybudd rhesymol o ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r gwrandawiad gohiriedig, oni bai bod paragraff (10) yn gymwys.

(10) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio gwrandawiad ac yn cyhoeddi yn y gwrandawiad ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r gwrandawiad gohiriedig, nid oes angen unrhyw rybudd pellach.

(11) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyflwyniadau cloi" yw crynodeb o'r prif bwyntiau ffeithiol a'r prif ddadleuon a wnaed gan y person sy'n eu cyflwyno, mewn perthynas â chais.

Y dull o gynnal ymchwiliad lleol

21.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn ymchwiliad lleol.

(2) Yr awdurdod archwilio sydd i lywyddu yn yr ymchwiliad lleol a phenderfynu—

(a) sut i'w reoli;

(b) y pynciau sydd i'w harchwilio yn yr ymchwiliad lleol;

(c) yr amser a ddyrennir i'r pynciau hynny.

(3) Ar ddechrau'r ymchwiliad lleol, rhaid i'r awdurdod archwilio—

(a) crynhoi'r pynciau y bydd yr ymchwiliad yn eu harchwilio, a

(b) nodi unrhyw bynciau pellach y bydd yr ymchwiliad yn eu harchwilio na chawsant eu nodi yn amserlen yr archwiliad.

(4) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu ar y drefn y gelwir ar bersonau i roi tystiolaeth mewn ymchwiliad lleol.

(b) refuse to permit representations that it considers irrelevant or repetitious;

(c) exclude a person who is disruptive;

(d) refuse to permit a person who has been excluded for being disruptive to return;

(e) permit a person who has been excluded for being disruptive to return, subject to specified conditions;

(f) adjourn the hearing;

(g) invite any person who makes representations at the hearing to submit closing submissions in writing.

(8) A person making closing submissions under paragraph (7)(g) must give them to the examining authority within 7 days beginning with the day after the last day of the hearing.

(9) If the examining authority adjourns a hearing, they must give reasonable notice of the date, time and place of the resumption of the adjourned hearing, unless paragraph (10) applies.

(10) If the examining authority adjourns a hearing and announces at the hearing the date, time and place of the resumption of the adjourned hearing, no further notice is required.

(11) In this regulation, "closing submissions" means a summary of the main factual points and the main arguments made by the person submitting them, in relation to an application.

Conduct of a local inquiry

21.—(1) This regulation applies where the examining authority determines that an application is to be examined, in whole or in part, at a local inquiry.

(2) The examining authority is to preside at a local inquiry and is to decide—

(a) how to manage it;

(b) the topics to be examined by way of local inquiry;

(c) the time allocated to those topics.

(3) At the opening of the local inquiry, the examining authority must—

(a) summarise the topics that the inquiry will examine, and

(b) identify any further topics that the inquiry will examine that were not identified in the timetable for the examination.

(4) The examining authority is to decide the order in which persons are called to give evidence at a local inquiry.

(5) Caiff unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i roi tystiolaeth mewn ymchwiliad lleol wneud archiad i'r awdurdod archwilio i alw ar drydydd parti i roi tystiolaeth.

(6) Mae gan berson sy'n cymryd rhan mewn ymchwiliad lleol hawlogaeth i groesholi person arall sy'n rhoi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad.

(7) Rhaid i'r awdurdod archwilio ganiatáu i berson sy'n cael ei groesholi mewn ymchwiliad lleol gael ei ailarchwilio.

(8) Wrth gynnal yr ymchwiliad lleol, caiff yr awdurdod archwilio yn benodol—

(a) bwrw ymlaen â'r ymchwiliad yn absenoldeb person a gafodd ei wahodd i fod yn bresennol;

(b) gwrthod caniatáu tystiolaeth y mae'n ystyried ei bod yn amherthnasol neu'n ailadroddus;

(c) gwahardd person sy'n aflonyddu;

(d) gwrthod caniatáu i berson sydd wedi ei wahardd am aflonyddu ddychwelyd;

(e) caniatáu i berson sydd wedi'i wahardd am aflonyddu ddychwelyd, yn amodol ar amodau penodedig;

(f) gohirio'r ymchwiliad;

(g) gofyn am gyflwyniadau cloi yn ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf yr ymchwiliad.

(9) Caiff unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo adael ymchwiliad lleol gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r awdurdod archwilio cyn i'r ymchwiliad ddod i ben.

(10) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio ymchwiliad lleol, rhaid iddo roi rhybudd rhesymol o ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r ymchwiliad lleol gohiriedig, oni bai bod paragraff (11) yn gymwys.

(11) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio ymchwiliad lleol ac yn cyhoeddi yn yr ymchwiliad lleol hwnnw ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r ymchwiliad lleol gohiriedig, nid oes angen unrhyw rybudd pellach.

(5) Any person who is invited to give evidence in a local inquiry may make a request to the examining authority to call a third party to give evidence.

(6) A person who takes part in a local inquiry is entitled to cross-examine another person who gives oral evidence to the inquiry.

(7) The examining authority must permit a person who is cross-examined at a local inquiry to be re-examined.

(8) In the conduct of the local inquiry, the examining authority may in particular—

(a) proceed with the inquiry in the absence of a person invited to attend it;

(b) refuse to permit evidence that it considers irrelevant or repetitious;

(c) exclude a person who is disruptive;

(d) refuse to permit a person who has been excluded for being disruptive to return;

(e) permit a person who has been excluded for being disruptive to return, subject to specified conditions;

(f) adjourn the inquiry;

(g) require closing submissions in writing within 7 days beginning with the day after the last day of the inquiry.

(9) Any person who is required to leave a local inquiry may submit representations in writing to the examining authority before the close of the inquiry.

(10) If the examining authority adjourns a local inquiry, they must give reasonable notice of the date, time and place of the resumption of the adjourned local inquiry, unless paragraph (11) applies.

(11) If the examining authority adjourns a local inquiry and announces at that local inquiry the date, time and place of the adjourned local inquiry, no further notice is required.

Cyfarfodydd, gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol rhithiol

22. Rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu personau sy'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfarfod, neu i gyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, sy'n digwydd o bell, am y trefniadau i'w galluogi i wneud hynny, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Virtual meetings, hearings and local inquiries

22. The examining authority must notify persons who are invited to take part in a meeting, or make representations at a hearing or local inquiry, that takes place remotely, of the arrangements to enable them to do so, as soon as reasonably practicable.

Darlledu gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol

23.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio drefnu i ddelweddau neu synau o wrandawiad neu ymchwiliad lleol gael eu darlledu, er mwyn galluogi personau nad ydynt yn cyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, neu unrhyw ran ohono, i wylio'r trafodion neu wrando arnynt.

(2) Caiff y trefniadau a wneir o dan baragraff (1) gynnwys trefniadau ar gyfer darlledu na roddir mynediad atynt i unigolion onid ydynt wedi rhoi gwybod pwy ydynt i'r awdurdod archwilio yn gyntaf.

(3) Cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff(1), rhaid i'r awdurdod archwilio ystyried—

(a) yr angen i drafodion fod yn agored ac yn dryloyw, cyn belled ag y bo modd,

(b) unrhyw archiadau i ddarlledu'r trafodion, ac

(c) i ba raddau y mae'r adnoddau technegol a dynol a'r adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i hwyluso arsylwi yn effeithiol drwy ddarlledu ar gael neu y gallant fod ar gael.

(4) Rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r canlynol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am unrhyw drefniadau i ddarlledu gwrandawiad neu ymchwiliad lleol—

(a) pob parti a chanddo fuddiant, a

(b) unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

(5) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 48 o Ddeddf 2024.

Broadcasting hearings and local inquiries

23.—(1) The examining authority may arrange for images or sounds of a hearing or local inquiry to be broadcast, for the purpose of enabling persons who are not making representations at a hearing or local inquiry, or any part of it, to watch or listen to the proceedings.

(2) The arrangements made under paragraph (1) may include arrangements for broadcasting to which individuals are given access only having first identified themselves to the examining authority.

(3) Before making a decision under paragraph (1), the examining authority must consider—

(a) the need for proceedings to be open and transparent, as far as possible,

(b) any requests for proceedings to be broadcast, and

(c) the extent to which the technical, human and other resources necessary to facilitate effective observation by broadcasting are or can be made available.

(4) The examining authority must notify the following, as soon as reasonably practicable, of any arrangements to broadcast a hearing or local inquiry—

(a) every interested party, and

(b) any other person that it considers appropriate.

(5) This regulation is subject to any direction under section 48 of the 2024 Act.

Recordio gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol

24.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio drefnu i ddelweddau neu synau o wrandawiad neu ymchwiliad lleol gael eu recordio, er mwyn galluogi personau i wylio neu wrando ar y trafodion yn ddiweddarach.

(2) Caiff unrhyw berson wneud archiad am fynediad gan yr awdurdod archwilio at unrhyw recordiad a wneir o dan baragraff (1) ar unrhyw adeg cyn diwedd 6 mis sy'n dechrau—

(a) yn achos rhoi cydsyniad seilwaith, â'r dyddiad y gwneir y gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu

(b) yn achos gwrthod cydsyniad seilwaith, â'r dyddiad y rhoddir hysbysiad y gwrthodir gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith i'r ceisydd o dan adran 60(2) o Ddeddf 2024.

(3) Rhaid i awdurdod archwilio ddarparu mynediad at unrhyw recordiad ar delerau rhesymol ac o fewn amser rhesymol i unrhyw archiad o dan baragraff(2).

Recording hearings and local inquiries

24.—(1) The examining authority may arrange for images or sounds of a hearing or local inquiry to be recorded, for the purpose of enabling persons to watch or listen to the proceedings at a later date.

(2) Any person may request access to any recording made under paragraph (1) from the examining authority at any time before the end of 6 months beginning with the date that—

(a) in the case of a grant of infrastructure consent, the infrastructure consent order is made, or

(b) in the case of a refusal of infrastructure consent, notice of refusal to make an infrastructure consent order is given to the applicant under section 60(2) of the 2024 Act.

(3) An examining authority must provide access to any recording on reasonable terms and within a reasonable time of any request under paragraph (2).

(4) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 48 o Ddeddf 2024.

Hysbysiad o benodiadau i gynorthwyo awdurdod archwilio

25.—(1) Rhaid i'r awdurdod archwilio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu pob person sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach am enw—

(a) unrhyw asesydd a benodir i'w gynorthwyo o dan adran 50 o Ddeddf 2024, a

(b) unrhyw fargyfreithiwr neu gyfreithiwr a benodir i'w gynorthwyo o dan adran 51 o Ddeddf 2024.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu pob person sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach am y materion y mae unrhyw asesydd wedi ei benodi i gynorthwyo mewn perthynas â hwy.

Cyfyngu ar fynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol

26.—(1) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch—

(a) cyfarwyddydau o dan adran 48(2) o Ddeddf 2024 sy'n cyfyngu ar fynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad, a

(b) swyddogaethau person a benodir o dan adran 48(4) neu (5) o Ddeddf 2024.

(2) Mewn perthynas â thystiolaeth a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 48(2) o Ddeddf 2024, mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at y person a gynrychiolir, pa un ai fel y "ceisydd" neu fel "parti a chanddo fuddiant", i'w darllen fel rhai sy'n cynnwys cyfeiriadau at gynrychiolydd a benodir o dan adran 48(4) neu (5) o Ddeddf 2024.

Cyfarfodydd rheoli archwiliad

27.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio gynnal cyfarfod ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar gais, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

(2) Diben cyfarfod rheoli archwiliad yw galluogi'r awdurdod archwilio i benderfynu—

(a) beth y gellir ei wneud i sicrhau bod yr archwiliad a materion paratoadol neu ddilynol sy'n ymwneud ag ef yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn hwylus, a

(b) pa drefniadau ymarferol i'w gwneud mewn perthynas â'r archwiliad a materion paratoadol neu ddilynol sy'n ymwneud ag ef.

(4) This regulation is subject to any direction under section 48 of the 2024 Act.

Notification of appointments to assist examining authority

25.—(1) The examining authority must as soon as reasonably practicable notify all persons who are invited to make further representations of the name—

(a) of any assessor appointed to assist them under section 50 of the 2024 Act, and

(b) of any barrister or solicitor appointed to assist them under section 51 of the 2024 Act.

(2) The examining authority must as soon as reasonably practicable notify all persons who are invited to make further representations of the matters in relation to which any assessor has been appointed to assist.

Restricting access to evidence at a local inquiry

26.—(1) Schedule 1 makes provision about—

(a) directions under section 48(2) of the 2024 Act restricting access to evidence at an inquiry, and

(b) the functions of a person appointed under section 48(4) or (5) of the 2024 Act.

(2) In relation to evidence specified in a direction under section 48(2) of the 2024 Act, references in these Regulations to the represented person, whether as the "applicant" or as an "interested party" are to be read as including references to a representative appointed under section 48(4) or (5) of the 2024 Act.

Examination management meetings

27.—(1) The examining authority may hold a meeting at any time before an application is decided, if it considers it appropriate.

(2) The purpose of an examination management meeting is to enable the examining authority to decide—

(a) what may be done to ensure that the examination and matters preparatory or subsequent to it, are managed efficiently and expeditiously, and

(b) what practical arrangements to make in relation to the examination and matters preparatory or subsequent to it.

(3) Yr awdurdod archwilio sydd i lywyddu mewn cyfarfod rheoli archwiliad a phenderfynu—

(a) lle a phryd i gynnal y cyfarfod,

(b) pa un ai i gynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o bell,

(c) sut i reoli'r cyfarfod,

(d) y materion sydd i'w trafod, ac

(e) yr amser a ddyrennir i'r materion hynny.

(4) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu pwy i'w wahodd i unrhyw gyfarfod rheoli archwiliad, ond rhaid iddo wahodd y ceisydd.

(5) Rhaid i'r awdurdod archwilio roi rhybudd rhesymol o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod rheoli archwiliad i bob person sy'n cael ei wahodd i'r cyfarfod.

(6) Rhaid i'r hysbysiad o'r cyfarfod rheoli archwiliad nodi dibenion y cyfarfod ac unrhyw fater y mae'r awdurdod archwilio yn dymuno ei drafod.

(7) Os yw person sy'n cael ei wahodd i'r cyfarfod rheoli archwilio, neu ei gynrychiolydd, yn methu neu'n amharod i fod yn bresennol, neu nad yw'n bresennol fel arall, caiff y cyfarfod fynd yn ei flaen.

(8) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod rheoli archwiliad, rhaid i'r awdurdod archwilio lunio nodyn o'r cyfarfod a'i roi i'r bobl a gafodd eu gwahodd i fod yn bresennol.

(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfarfod rheoli archwiliad" yw cyfarfod a gynhelir yn unol â pharagraff (1).

Amrywio cais

28.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd yn cynnig gwneud archiad am amrywiad i'w gais, ac eithrio—

(a) pan fydd Rhan 4 o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 yn gymwys, neu

(b) pan fydd rheoliad 31 o Reoliadau Ceisiadau 2025 yn gymwys.

(2) Rhaid i'r ceisydd roi cymaint o hysbysiad ag sy'n rhesymol ymarferol i'r awdurdod archwilio am unrhyw fwriad i gyflwyno archiad am amrywiad, ond ni chaiff roi hysbysiad o'r fath cyn diwrnod cyntaf gwrandawiad neu ymchwiliad lleol.

(3) Rhaid i hysbysiad o fwriad i gyflwyno archiad am amrywiad—

(a) bod yn ysgrifenedig,

(b) disgrifio'r amrywiad arfaethedig, mewn digon o fanylder i alluogi'r awdurdod archwilio i ddeall ei raddfa a'i effaith,

(3) The examining authority is to preside at an examination management meeting and to decide—

(a) where and when to hold the meeting,

(b) whether to hold the meeting wholly or partly remotely,

(c) how to manage the meeting,

(d) the matters to be discussed, and

(e) the time allocated to those matters.

(4) The examining authority is to decide who to invite to any examination management meeting, but it must invite the applicant.

(5) The examining authority must give reasonable notice of the date, time and place of the examination management meeting to each person invited to attend it.

(6) The notice of the examination management meeting must specify the purposes of the meeting and any matter which the examining authority wishes to discuss.

(7) If a person invited to the examination management meeting or their representative is unwilling, unable or otherwise does not attend, the meeting may proceed.

(8) As soon as practicable after the examination management meeting, the examining authority must prepare a note of the meeting and give it to the people invited to attend it.

(9) In this regulation, "examination management meeting" means a meeting held pursuant to paragraph (1).

Variation of application

28.—(1) This regulation applies when the applicant proposes to request a variation of its application, other than—

(a) when Part 4 of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations applies, or

(b) when regulation 31 of the 2025 Applications Regulations applies.

(2) The applicant must give the examining authority as much notice as reasonably practicable of any intention to submit a request for variation, but it may not give such notice before the first day of a hearing or local inquiry.

(3) A notice of intention to submit a request for variation must—

(a) be in writing,

(b) describe the proposed variation, in sufficient detail to enable the examining authority to understand its scale and effect,

(c) cynnwys rhesymau—

(i) dros yr amrywiad,

(ii) pam na chynhwyswyd effaith yr amrywiad yn y cais fel y'i gwnaed, a

(iii) pam na fu modd gwneud yr archiad am amrywiad yn gynharach, a

(d) nodi sut, ym marn y ceisydd, y gallai'r archiad am amrywiad gael ei archwilio'n briodol o fewn yr amser ar gyfer penderfynu ar y cais yn unol ag adran 59 o Ddeddf 2024.

(4) Caiff yr awdurdod archwilio ddarparu cyngor i'r ceisydd ynghylch yr hysbysiad o archiad am amrywiad.

(5) Rhaid i'r awdurdod archwilio drefnu i gyhoeddi unrhyw gyngor a ddarperir o dan baragraff (4) ar y wefan y cyfeirir ati yn rheoliad16.

(6) Caiff yr awdurdod archwilio drin yr hysbysiad o archiad am amrywiad fel archiad am amrywiad os yw'n ymddangos iddo fod ganddo ddeunyddiau digonol o'i flaen i wneud argymhelliad ynghylch rhinweddau'r archiad.

(7) Rhaid i archiad am amrywiad—

(a) bod yn ysgrifenedig,

(b) cynnwys rhestr o ddiwygiadau y cynigir eu gwneud i'r cais,

(c) disgrifio—

(i) y cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori a gynhaliwyd mewn perthynas â'r amrywiad arfaethedig,

(ii) unrhyw ymatebion i'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori a sut y mae'r ceisydd wedi rhoi sylw iddynt, a

(iii) unrhyw newid i'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr hysbysiad o archiad am amrywiad.

(8) Wrth benderfynu pa un ai i dderbyn ac archwilio archiad am amrywiad, rhaid i'r awdurdod archwilio roi sylw yn benodol i—

(a) dymunoldeb rheoli'r archwiliad yn effeithlon ac yn effeithiol, a

(b) yr amser ar gyfer penderfynu ar y cais yn unol ag adran 59 o Ddeddf 2024.

(9) Caiff yr awdurdod archwilio wrthod ystyried archiad am amrywiad os yw'r awdurdod neu Weinidogion Cymru wedi gwrthod archiad tebyg ac nad oes yn ei farn ef unrhyw newid sylweddol i'r archiad hwnnw, nac unrhyw newid sylweddol sy'n effeithio arno, wedi bod.

(c) include reasons—

(i) for the variation,

(ii) why the effect of the variation was not included in the application as made, and

(iii) why the request for variation could not be made earlier, and

(d) set out how, in the applicant's view, the request for variation could be properly examined within the time for deciding the application in accordance with section 59 of the 2024 Act.

(4) The examining authority may provide advice to the applicant about the notice of request for variation.

(5) The examining authority must arrange to publish any advice provided under paragraph (4) on the website referred to in regulation 16.

(6) The examining authority may treat the notice of request for variation as a request for variation if it appears to it that it has sufficient material before it to make a recommendation on the merits of the request.

(7) A request for variation must—

(a) be in writing,

(b) contain a list of revisions proposed to the application,

(c) describe—

(i) the publicity and consultation carried out in relation to the proposed variation,

(ii) any responses to the publicity and consultation and how the applicant has had regard to them, and

(iii) any change to the information provided in the notice of request for variation.

(8) In deciding whether to accept and examine a request for variation, the examining authority must in particular have regard to—

(a) the desirability of managing the examination efficiently and effectively, and

(b) the time for deciding the application in accordance with section 59 of the 2024 Act.

(9) The examining authority may refuse to consider a request for variation if it or the Welsh Ministers have refused a similar request and in its opinion there has been no material change to, or affecting, that request.

(10) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo dderbyn archiad am amrywiad, rhaid i'r awdurdod archwilio roi'r cyfle i unrhyw bersonau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i gyflwyno sylwadau pellach ynghylch yr amrywiad.

(11) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "archiad am amrywiad" yw archiad fel y'i disgrifir ym mharagraff(11);

(b) ystyr "hysbysiad o archiad am amrywiad" yw hysbysiad fel y'i disgrifir ym mharagraff (3).

(10) As soon as reasonably practicable after it accepts a request for variation, the examining authority must give such persons as it considers appropriate the opportunity of making further representations about the variation.

(11) In this regulation—

(a) "a request for variation" means a request as described in paragraph (7);

(b) "notice of request for variation" means a notice as described in paragraph (3).

RHAN 5

Y weithdrefn ar ôl sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad ac ymchwiliad lleol

Adroddiad yr asesydd

29. Pan fo asesydd wedi ei benodi o dan adran 50 o Ddeddf 2024, rhaid i'r asesydd gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r awdurdod archwilio ar y materion y cafodd ei benodi mewn cysylltiad â hwy i gynorthwyo'r awdurdod archwilio.

Symud ymlaen i adroddiad neu benderfyniad

30.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio lunio adroddiad o dan adran 52(2) o Ddeddf 2024 gan ddiystyru unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach ac unrhyw ddogfennau ategol pellach a gyflwynwyd ar ôl y terfyn amser o dan reoliad 19.

(2) Caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) symud ymlaen i benderfyniad gan ddiystyru'r sylwadau ysgrifenedig pellach a'r dogfennau ategol pellach a gyflwynwyd ar ôl y terfyn amser o dan reoliad 19.

(3) Caiff yr awdurdod archwilio, ar ôl rhoi hysbysiad i'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio o'i fwriad i wneud hynny, gyflwyno adroddiad o dan adran 52 o Ddeddf 2024, er na chyflwynwyd unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach o fewn y terfyn amser o dan reoliad 19, os yw'n ymddangos iddo fod ganddo ddigon o ddeunydd o'i flaen i wneud argymhelliad ar rinweddau'r cais.

(4) Caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd), ar ôl rhoi hysbysiad i'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio o'u bwriad i wneud hynny, symud ymlaen i benderfyniad er na chyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig pellach o fewn y terfyn amser o dan reoliad 19, os yw'n ymddangos iddynt fod ganddynt ddigon o ddeunydd o'u blaen i wneud argymhelliad ar rinweddau'r cais.

PART 5

Procedure after written representations, hearing and local inquiry

Assessor's report

29. Where an assessor has been appointed under section 50 of the 2024 Act, the assessor must make a written report to the examining authority on the matters in respect of which they were appointed to assist the examining authority.

Proceeding to a report or decision

30.—(1) The examining authority may make a report under section 52(2) of the 2024 Act disregarding any further written representations and supporting documents as were submitted after the time limit under regulation 19.

(2) The examining authority or the Welsh Ministers (as the case may be) may proceed to a decision disregarding the further written representations and supporting documents as were submitted after the time limit under regulation 19.

(3) The examining authority may, after giving the applicant and the planning authority notice of their intention to do so, make a report under section 52 of the 2024 Act, even though no further written representations were submitted within the time limit under regulation 19, if it appears to it that it has sufficient material before it to make a recommendation on the merits of the application.

(4) The examining authority or the Welsh Ministers (as the case may be) may, after giving the applicant and the planning authority notice of their intention to do so, proceed to a decision even though no further written representations were submitted within the time limit under regulation 19, if it appears to them that they have sufficient material before them to make a recommendation on the merits of the application.

Cais i'w benderfynu gan yr awdurdod archwilio

31.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ar ôl i archwiliad gael ei gwblhau, pan fo'r awdurdod archwilio i benderfynu ar gais.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio ysgrifennu adroddiad.

(3) Rhaid i'r adroddiad—

(a) datgan a yw'r awdurdod archwilio yn anghytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr asesydd a'r rheswm dros unrhyw anghytundeb,

(b) cynnwys canfyddiadau a chasgliadau'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r cais, ac

(c) cynnwys penderfyniad yr awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r cais.

(4) Caiff yr awdurdod archwilio ddiystyru unrhyw sylwadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad ar gyfer gwneud y sylwadau hynny.

(5) Os yw'r awdurdod archwilio yn cynnig ystyried unrhyw dystiolaeth newydd neu ffaith newydd cyn gwneud penderfyniad ar y cais, rhaid i'r awdurdod archwilio roi hysbysiad i'r holl bartïon a chanddynt fuddiant o'r cynnig a'i resymau drosto.

(6) Pan fo'r archwiliad wedi digwydd yn llwyr ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, rhaid i'r awdurdod archwilio roi cyfle i bob parti a chanddo fuddiant gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y dystiolaeth newydd honno neu'r ffaith newydd honno erbyn dyddiad penodedig.

(7) Pan fo unrhyw ran o'r archwiliad wedi digwydd drwy wrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r partïon a chanddynt fuddiant —

(a) y gall ei gwneud yn ofynnol i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol gael ei ailagor i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd, a

(b) o'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r partïon a chanddynt fuddiant hysbysu'r awdurdod archwilio o unrhyw archiad i ailagor yr archwiliad i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(8) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (6) neu (7)(b) fod o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad hwnnw, os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad hwnnw, mewn unrhyw achos arall.

Application to be decided by the examining authority

31.—(1) This regulation applies after the completion of an examination, where an application is to be decided by the examining authority.

(2) The examining authority must write a report.

(3) The report must—

(a) state if the examining authority disagrees with any aspect of the assessor's report and the reason for any disagreement,

(b) include the examining authority's findings and conclusions in respect of the application, and

(c) include the examining authority's decision in respect of the application.

(4) The examining authority may disregard any representations received after the date for making those representations.

(5) If the examining authority proposes to take into consideration any new evidence or new fact before making a decision on the application, the examining authority must give all interested parties notice of the proposal and their reasons for it.

(6) Where the examination has been wholly by way of written representations, the examining authority must give all interested parties the opportunity to make representations in writing on that new evidence or new fact by a specified date.

(7) Where any part of the examination has been by way of hearing or local inquiry, the examining authority must notify the interested parties—

(a) that they may require the hearing or local inquiry to be re-opened to examine the new evidence or new fact, and

(b) of the date by which the interested parties must notify the examining authority of any request to re-open the examination to examine the new evidence or new fact.

(8) The date specified under paragraph (6) or (7)(b) must be at least—

(a) 28 days from the date of that notice, if the application relates to EIA development;

(b) 21 days from the date of that notice, in any other case.

(9) Mewn perthynas â'r awdurdod archwilio—

(a) rhaid iddo ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd os yw parti a chanddo fuddiant yn gwneud archiad am hynny o dan baragraff (7), neu

(b) fel arall caiff, os yw'n ystyried ei bod yn briodol, ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(10) Pan fo'r awdurdod archwilio yn ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid iddo anfon at y partïon a chanddynt fuddiant cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir tystiolaeth bellach mewn cysylltiad â hwy.

(11) Rhaid i'r awdurdod archwilio ddarparu'r datganiad ysgrifenedig ym mharagraff (10) o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, mewn unrhyw achos arall.

Cais i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru

32.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ar ôl i archwiliad gael ei gwblhau, pan fo Gweinidogion Cymru i benderfynu ar gais.

(2) Yn ogystal â'r gofynion yn adran 52 o Ddeddf 2024, rhaid i adroddiad yr awdurdod archwilio i Weinidogion Cymru ddatgan a yw'r awdurdod archwilio yn anghytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr asesydd a'r rheswm dros unrhyw anghytundeb.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru—

(a) yn anghytuno â'r awdurdod archwilio ar unrhyw fater o ffaith a grybwyllwyd mewn casgliad gan yr awdurdod archwilio, neu yr ymddengys i Weinidogion Cymru ei fod yn berthnasol iddo, neu

(b) yn cynnig ystyried unrhyw dystiolaeth newydd neu fater o ffaith newydd.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ddod i benderfyniad sy'n groes i argymhelliad yr awdurdod archwilio, heb gymryd y camau a nodir ym mharagraffau (5) i (7) yn gyntaf.

(9) The examining authority—

(a) must re-open a hearing or a local inquiry to examine the new evidence or fact if an interested party so requests under paragraph (7), or

(b) may otherwise, if they consider it appropriate, re-open a hearing or a local inquiry to examine the new evidence or fact.

(10) Where the examining authority re-opens a hearing or a local inquiry, they must send to the interested parties as soon as reasonably practicable, a written statement of the matters in respect of which further evidence is invited.

(11) The examining authority must provide the written statement in paragraph (10) at least—

(a) 28 days before the first day of any re-opened hearing or local inquiry, if the application relates to EIA development;

(b) 21 days before the first day of any re-opened hearing or local inquiry, in any other case.

Application to be decided by the Welsh Ministers

32.—(1) This regulation applies after the completion of an examination, where an application is to be decided by the Welsh Ministers.

(2) In addition to the requirements in section 52 of the 2024 Act, the examining authority's report to the Welsh Ministers must state if the examining authority disagrees with any aspect of the assessor's report and the reason for any disagreement.

(3) Paragraph (4) applies if the Welsh Ministers—

(a) differ from the examining authority on any matter of fact mentioned in, or appearing to the Welsh Ministers to be material to, a conclusion of the examining authority, or

(b) propose to take into consideration any new evidence or new matter of fact.

(4) The Welsh Ministers must not come to a decision which is at variance with the recommendation of the examining authority, without first taking the steps set out in paragraphs (5) to (7).

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu pob parti a chanddo fuddiant—

(a) am y gwahaniaeth yn eu barn hwy a'u rhesymau drosto, neu

(b) am y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(6) Pan fo'r archwiliad wedi digwydd yn gyfan gwbl ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, rhaid i'r awdurdod archwilio roi cyfle i bob parti a chanddo fuddiant gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y gwahaniaeth hwnnw, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd erbyn dyddiad penodedig.

(7) Pan fo unrhyw ran o'r archwiliad wedi digwydd drwy wrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r partïon a chanddynt fuddiant—

(a) y gall ei gwneud yn ofynnol i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol gael ei ailagor i archwilio'r gwahaniaeth, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd, a

(b) o'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r partïon a chanddynt fuddiant hysbysu'r awdurdod archwilio am unrhyw archiad i ailagor yr archwiliad i archwilio'r gwahaniaeth, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(8) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (6) neu (7)(b) fod o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad hwnnw, os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad hwnnw, mewn unrhyw achos arall.

(9) Mewn perthynas â'r awdurdod archwilio—

(a) rhaid iddo ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r gwahaniaeth, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd os yw parti a chanddo fuddiant yn gwneud archiad am hynny o dan baragraff(7), neu

(b) fel arall caiff, os yw'n ystyried ei bod yn briodol, ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r gwahaniaeth, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(10) Pan fo'r awdurdod archwilio yn ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid iddo anfon at y partïon a chanddynt fuddiant cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir sylwadau pellach mewn cysylltiad â hwy.

(5) The Welsh Ministers must give all interested parties notice—

(a) of the difference in their view and their reasons for it, or

(b) of the new evidence or new fact.

(6) Where the examination has been wholly by way of written representations, the examining authority must give all interested parties the opportunity to make representations in writing on that difference, new evidence or new fact by a specified date.

(7) Where any part of the examination has been by way of hearing or local inquiry, the examining authority must notify the interested parties—

(a) that they may require the hearing or local inquiry to be re-opened to examine the difference, new evidence or new fact, and

(b) of the date by which the interested parties must notify the examining authority of any request to re-open the examination to examine the difference, new evidence or new fact.

(8) The date specified under paragraph (6) or (7)(b) must be at least—

(a) 28 days from the date of that notice, if the application relates to EIA development;

(b) 21 days from the date of that notice, in any other case.

(9) The examining authority—

(a) must re-open a hearing or a local inquiry to examine the difference, new evidence or fact if an interested party so requests under paragraph (7), or

(b) may otherwise, if they consider it appropriate, re-open a hearing or a local inquiry to examine the difference, new evidence or fact.

(10) Where the examining authority re-opens a hearing or a local inquiry, they must send to the interested parties as soon as reasonably practicable, a written statement of the matters in respect of which further representations are invited.

(11) Rhaid i'r awdurdod archwilio ddarparu'r datganiad ysgrifenedig ym mharagraff (10) o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, mewn unrhyw achos arall.

Cyfarwyddyd i ailagor yr archwiliad

33. Pan fo'r awdurdod archwilio yn ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol yn unol â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 53(1) o Ddeddf 2024, rhaid iddo anfon at y partïon a chanddynt fuddiant cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir tystiolaeth bellach mewn cysylltiad â hwy.

Cynnig i wneud gorchymyn sy'n sylweddol wahanol

34.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith—

(a) ar delerau sydd yn eu barn hwy yn sylweddol wahanol i'r rhai a gynigiwyd yn y cais, a

(b) sydd o ganlyniad i hysbysiad o dan adran 60(3)(a) ai peidio.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) hysbysu unrhyw berson y mae'n ymddangos iddynt hwy ei bod yn debygol yr effeithir arno,

(b) rhoi cyfle i'r person hwnnw gyflwyno sylwadau iddynt am y gwahaniaethau o fewn amser a bennir yn yr hysbysiad hwnnw, ac

(c) ystyried y sylwadau a wneir yn ystod yr amser a bennir yn yr hysbysiad hwnnw, cyn gwneud penderfyniad ar y gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Hysbysiad o benderfyniadau ar gais o ran Cymru

35.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phenderfyniadau ar gais am ddatblygiad yng Nghymru.

(2) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 60(2) o Ddeddf 2024, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 am eu penderfyniad naill ai i wneud gorchymyn cydsyniad seilwaith neu i wrthod cydsyniad seilwaith.

(11) The examining authority must provide the written statement in paragraph (10) at least—

(a) 28 days before the first day of any re-opened hearing or local inquiry, if the application relates to EIA development;

(b) 21 days before the first day of any re-opened hearing or local inquiry, in any other case.

Direction to re-open the examination

33. Where the examining authority re-opens a hearing or a local inquiry pursuant to a direction by the Welsh Ministers under section 53(1) of the 2024 Act, they must send to the interested parties as soon as reasonably practicable a written statement of the matters in respect of which further evidence is invited.

Proposal to make materially different order

34.—(1) This regulation applies where the Welsh Ministers propose to make an infrastructure consent order—

(a) on terms which are in their opinion materially different from those proposed in the application, and

(b) whether as a result of a notice under section 60(3)(a) or not.

(2) The Welsh Ministers must—

(a) notify any person who seems to them to be likely to be affected,

(b) give that person an opportunity of making representations to them about the differences within a time specified in that notice, and

(c) consider the representations made during the time specified in that notice, before making a decision on the infrastructure consent order.

Notice of decisions on an application in relation to Wales

35.—(1) This regulation applies in relation to decisions on an application for development in Wales.

(2) In addition to the persons listed in section 60(2) of the 2024 Act, the Welsh Ministers must notify the persons listed in paragraph 1 of Schedule 2 of their decision to either make an infrastructure consent order or refuse infrastructure consent.

(3) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 60(4) o Ddeddf 2024, rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 am eu penderfyniad naill ai bod gorchymyn cydsyniad seilwaith i gael ei wneud neu i wrthod cydsyniad seilwaith.

(4) Pan fo cais yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, gweler hefyd reoliad 26(2) o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 am ofynion ychwanegol ynghylch hysbysiad o benderfyniadau.

(3) In addition to the persons listed in section 60(4) of the 2024 Act, the examining authority must notify the persons listed in paragraph 1 of Schedule 2 of their decision either that an infrastructure consent order is to be made or to refuse infrastructure consent.

(4) Where an application includes a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land, see also regulation 26(2) of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations for additional requirements as to notice of decisions.

Hysbysiad o benderfyniadau ar gais mewn perthynas ag ardal forol Cymru

36.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phenderfyniadau ar gais am ddatblygiad yn ardal forol Cymru.

(2) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 60(2) o Ddeddf 2024, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff 2 o Atodlen 2 am eu penderfyniad naill ai i wneud gorchymyn cydsyniad seilwaith neu i wrthod cydsyniad seilwaith.

(3) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 60(4) o Ddeddf 2024, rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff 2 o Atodlen 2 am eu penderfyniad naill ai bod gorchymyn cydsyniad seilwaith i gael ei wneud neu i wrthod cydsyniad seilwaith.

(4) Pan fo cais yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, gweler hefyd reoliad 26(3) o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 am ofynion ychwanegol ynghylch hysbysiad o benderfyniadau.

Notice of decisions on an application in relation to the Welsh marine area

36.—(1) This regulation applies in relation to decisions on an application for development in the Welsh marine area.

(2) In addition to the persons listed in section 60(2) of the 2024 Act, the Welsh Ministers must notify the persons listed in paragraph 2 of Schedule 2 of their decision to either make an infrastructure consent order or refuse infrastructure consent.

(3) In addition to the persons listed in section 60(4) of the 2024 Act, the examining authority must notify the persons listed in paragraph 2 of Schedule 2 of their decision either that an infrastructure consent order is to be made or to refuse infrastructure consent.

(4) Where an application includes a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land, see also regulation 26(3) of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations for additional requirements as to notice of decisions.

Hysbysiad o'r rhesymau dros benderfyniad ar gais o ran Cymru

37.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddatganiad a lunnir o dan adran 62(1) neu (2) o Ddeddf 2024 mewn perthynas â phenderfyniad ar gais o ran Cymru.

(2) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 62(3) o Ddeddf 2024, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (yn ôl y digwydd) ddarparu copi o'r datganiad i'r personau a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 2.

(3) Pan fo cais yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, gweler hefyd reoliad 27(2) o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 am ofynion ychwanegol ynghylch hysbysiad o'r rhesymau dros benderfyniadau.

Notice of reasons for decision on an application in relation to Wales

37.—(1) This regulation applies in relation to a statement prepared under section 62(1) or (2) of the 2024 Act in relation to a decision on an application in relation to Wales.

(2) In addition to the persons listed in section 62(3) of the 2024 Act, the Welsh Ministers or the examining authority (as the case may be) must provide a copy of the statement to the persons listed in paragraph 1 of Schedule 2.

(3) Where an application includes a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land, see also regulation 27(2) of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations for additional requirements as to notice of reasons for decisions.

Hysbysiad o'r rhesymau dros benderfyniad ar gais mewn perthynas ag ardal forol Cymru

38.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddatganiad a lunnir o dan adran 62(1) neu (2) o Ddeddf 2024 mewn perthynas â phenderfyniad ar gais mewn perthynas ag ardal forol Cymru.

(2) Yn ogystal â'r personau a restrir yn adran 62(3) o Ddeddf 2024, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (yn ôl y digwydd) ddarparu copi o'r datganiad i'r personau a restrir ym mharagraff 2 o Atodlen 2.

(3) Pan fo cais yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, gweler hefyd reoliad 27(2) o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025 am ofynion ychwanegol ynghylch hysbysiad o'r rhesymau dros benderfyniadau.

Gweithdrefn ar ôl dileu penderfyniad

39.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo penderfyniad yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chais yn cael ei ddileu gan unrhyw lys.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio—

(a) anfon datganiad ysgrifenedig at yr holl bartïon a chanddynt fuddiant o'r materion y gwahoddir sylwadau pellach mewn perthynas â hwy at ddibenion ei ailystyriaeth o'r penderfyniad, a

(b) rhoi cyfle i'r partïon a chanddynt fuddiant gyflwyno sylwadau i'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r materion hynny.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau o dan y rheoliad hwn eu cyflwyno cyn diwedd y cyfnod o—

(a) 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r datganiad ysgrifenedig gael ei roi i'r parti a chanddo fuddiant, os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r datganiad ysgrifenedig gael ei roi i'r parti a chanddo fuddiant.

(4) Caiff yr awdurdod archwilio estyn y cyfnod a bennir ym mharagraff (3) mewn achos penodol.

(5) Caiff yr awdurdod archwilio, os yw'n ystyried ei bod yn briodol—

(a) ailagor y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(b) agor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol newydd, neu

(c) archwilio'r mater ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Notice of reasons for decision on an application in relation to the Welsh marine area

38.—(1) This regulation applies in relation to a statement prepared under section 62(1) or (2) of the 2024 Act in relation to a decision on an application in relation to the Welsh marine area.

(2) In addition to the persons listed in section 62(3) of the 2024 Act, the Welsh Ministers or the examining authority (as the case may be) must provide a copy of the statement to the persons listed in paragraph 2 of Schedule 2.

(3) Where an application includes a request to authorise the compulsory acquisition of land, or of an interest in or right over land, see also regulation 27(2) of the 2025 Compulsory Acquisition Regulations for additional requirements as to notice of reasons for decisions.

Procedure following quashing a decision

39.—(1) This regulation applies where a decision of the examining authority or the Welsh Ministers in respect of an application is quashed by any court.

(2) The examining authority must—

(a) send to all interested parties a written statement of the matters with respect to which further representations are invited for the purposes of its reconsideration of the decision, and

(b) give the interested parties the opportunity to make representations to the examining authority in respect of those matters.

(3) Any person invited to submit representations under this regulation must submit must them before the end of the period of—

(a) 28 days beginning with the day after the written statement is given to the interested party, if the application relates to EIA development;

(b) 21 days beginning with the day after the written statement is given to the interested party.

(4) The examining authority may extend the period specified in paragraph (3) in a particular case.

(5) The examining authority may, as it considers it appropriate—

(a) re-open the hearing or local inquiry,

(b) open a new hearing or local inquiry, or

(c) examine the matter on the basis of written representations.

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
14 Mehefin 2025

Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning, one of the Welsh Ministers
14 June 2025

ATODLEN 1 Rheoliad 26

Cyfyngu ar fynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol

Cymhwyso Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006

1. Mae Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

2. Yn rheoliad 2—

(a) yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "Deddf 2024" ("*the 2024 Act*") yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024;";

(b) ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "cynrychiolydd penodedig", ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"; neu

(d) adran 48(4) neu (5) o Ddeddf 2024;";

(c) ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "cyfarwyddyd", ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"; neu

(d) adran 48(2) o Ddeddf 2024;";

(d) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(9) Mewn perthynas â rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill o dan adran 48 o Ddeddf 2024, gweler hefyd adran 136 o'r Ddeddf honno."

3. Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"; neu

(d) adran 48(2) o Ddeddf 2024;";

(b) ym mharagraff (3), mewnosoder—

"(i) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"; neu

(d) adran 48(4) neu (5) o Ddeddf 2024;"".

(**1**) O.S. 2006/1387 (Cy. 137), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/56 (Cy. 26), O.S. 2017/567 (Cy. 136) ac O.S. 2024/924 (Cy. 151).

SCHEDULE 1 Regulation 26

Restricting access to evidence at local inquiry

Application of the Planning (National Security Directions and Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2006

1. The Planning (National Security Directions and Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2006(**1**) are amended as follows.

2. In regulation 2—

(a) in the appropriate place, insert—

""the 2024 Act" ("*Deddf 2024*") means the Infrastructure (Wales) Act 2024;";

(b) in paragraph (1), in the definition of "appointed representative", after sub-paragraph (c) insert—

"; or

(d) section 48(4) or (5) of the 2024 Act;";

(c) in paragraph (1), in the definition of "direction", after sub-paragraph (c) insert—

"; or

(d) section 48(2) of the 2024 Act;";

(d) after paragraph (8), insert—

"(9) In relation to giving notices and other documents under section 48 of the 2024 Act, see also section 136 of that Act."

3. In regulation 3—

(a) in paragraph (1), after sub-paragraph (c) insert—

"; or

(d) section 48(2) of the 2024 Act;";

(b) in paragraph (3), insert—

"(i) after sub-paragraph (c) insert—

"; or

(d) section 48(4) or (5) of the 2024 Act;"".

(**1**) S.I. 2006/1387 (W. 137), amended by S.I. 2016/56 (W. 26), S.I. 2017/567 (W. 136) and S.I. 2024/924 (W. 151).

4. Yn rheoliad 4(2)(a), ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

"; neu

(iv) adran 48(4) neu (5) o Ddeddf 2024,".

4. In regulation 4(2)(a), after paragraph (iii) insert—

"; or

(iv) section 48 (4) or (5) of the 2024 Act,".

5. Yn rheoliad 6(8), yn y diffiniad o "datblygiad mawr", o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) prosiect seilwaith arwyddocaol at ddibenion adran 1 o Ddeddf 2024;".

5. In regulation 6(8), in the definition of "major development", before sub-paragraph (a), insert—

"(aa) a significant infrastructure project for the purposes of section 1 of the 2024 Act;".

ATODLEN 2 Rheoliadau 35, 36, 37 a 38

Hysbysiad o benderfyniad a'r rhesymau

1. Y personau y mae rhaid rhoi hysbysiad iddynt mewn perthynas â gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n effeithio ar Gymru yw—

(a) pob—

(i) perchennog, lesddeiliad, tenant (beth bynnag y bo cyfnod y denantiaeth) neu feddiannwr y tir;

(ii) person a chanddo fuddiant yn y tir;

(iii) person sydd â phŵer—

(aa) i werthu neu i drawsgludo'r tir, neu

(bb) i ryddhau'r tir,

(b) unrhyw berson ac eithrio un a restrir yn is-baragraff (a) a allai fod â hawlogaeth i wneud hawliad perthnasol,

(c) pob perchennog neu feddiannydd cydffiniol ar y tir y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef,

(d) pob awdurdod cynllunio ac eithrio un a grybwyllir yn adran 60(2)(b) neu (4)(b) (yn ôl y digwydd) y mae'r person sy'n hysbysu yn ystyried ei fod yn briodol,

(e) pob cyngor cymuned ac eithrio un a grybwyllir yn adran 60(2)(b) neu (4)(b) (yn ôl y digwydd) a gyflwynodd sylwadau ar y cais y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau,

(f) pob Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli ardal y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn effeithio arni,

(g) pob Aelod o Dŷ'r Cyffredin sy'n cynrychioli ardal y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn effeithio arni, ac

(h) unrhyw berson arall y mae'r person sy'n hysbysu yn ystyried ei fod yn briodol.

2. Y personau y mae rhaid rhoi hysbysiad iddynt mewn perthynas â gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n effeithio ar ardal forol Cymru yw—

(a) pob awdurdod cynllunio ac eithrio un a grybwyllir yn adran 60(2)(b) neu (4)(b) (yn ôl y digwydd) y mae'r person sy'n hysbysu yn ystyried ei fod yn briodol,

SCHEDULE 2 Regulations 35, 36, 37 and 38

Notification of decision and reasons

1. Persons who must be given notice in relation to an infrastructure consent order affecting Wales are—

(a) each—

(i) owner, lessee, tenant (whatever the tenancy period) or occupier of the land;

(ii) person interested in the land;

(iii) person having power—

(aa) to sell or convey the land, or

(bb) to release the land,

(b) any person other than one listed in sub-paragraph (a) who might be entitled to make a relevant claim,

(c) each adjoining owner or occupier of the land to which the infrastructure consent order relates,

(d) each planning authority other than one mentioned in section 60(2)(b) or (4)(b) (as the case may be) the person notifying considers appropriate,

(e) each community council other than one mentioned in section 60(2)(b) or (4)(b) (as the case may be) that made representations on the application to which the infrastructure consent order relates, during the representation period,

(f) each Member of the Senedd representing an area affected by the infrastructure consent order,

(g) each Member of the House of Commons representing an area affected by the infrastructure consent order, and

(h) any other person the person notifying considers appropriate.

2. Persons who must be given notice in relation to an infrastructure consent order affecting the Welsh marine area are—

(a) each planning authority other than one mentioned in section 60(2)(b) or (4)(b) (as the case may be) the person notifying considers appropriate,

(b) pob cyngor cymuned ac eithrio un a grybwyllir yn adran 60(2)(b) neu (4)(b) (yn ôl y digwydd) a gyflwynodd sylwadau ar y cais y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau,

(c) pob Aelod o'r Senedd y mae'r person sy'n hysbysu yn ystyried ei fod yn briodol,

(d) pob Aelod o Dŷ'r Cyffredin y mae'r person sy'n hysbysu yn ystyried ei fod yn briodol, ac

(e) unrhyw berson arall y mae'r person sy'n hysbysu yn ystyried ei fod yn briodol.

3. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "hawliad perthnasol" ("*relevant claim*") yw hawliad o dan—

(a) adran 10 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965(**1**),

(b) Rhan 1 o Ddeddf Digolledi ad Tir 1973(**2**), neu

(c) adran 101 o Ddeddf 2024;

ystyr "y tir" ("*the land*") yw—

(a) y tir y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, neu

(b) unrhyw ran o'r tir hwnnw.

(b) each community council other than one mentioned in section 60(2)(b) or (4)(b) (as the case may be) that made representations on the application to which the infrastructure consent order relates, during the representation period,

(c) each Member of the Senedd the person notifying considers appropriate,

(d) each Member of the House of Commons the person notifying considers appropriate, and

(e) any other person the person notifying considers appropriate.

3. In this Schedule—

"the land" ("*y tir*") means—

(a) the land to which the infrastructure consent order relates, or

(b) any part of that land;

"relevant claim" ("*hawliad perthnasol*") means a claim under—

(a) section 10 of the Compulsory Purchase Act 1965(**1**),

(b) Part 1 of the Land Compensation Act 1973(**2**), or

(c) section 101 of the 2024 Act.

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 1965 p. 56.
(**2**) 1973 p. 26.

(**1**) 1965 c. 56.
(**2**) 1973 c. 26.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-39697-3
9 780348 396973